# Y TINCER

PRIS 75c

Rhif 332

Hydref 2010

PAPUR BRO GENAU'R-GLYN, MELINDWR, TIRYMYNACH, TREFEURIG A'R BORTH

## Codi arian



Yn ddiweddar bu'r Parchedig Robert W. a Rhian Jones, cyn weinidog gofalaeth y Garn a'i wraig ar daith chwe chan milltir o gwmpas Cymru ar foto beic i godi arian yn Eisteddfod Genedlaethol Wrecsam 2011 gan alw yng Nghasnewydd, Abertawe, Y Bermo, Aberdaron ac Amlwch. Maent wedi codi bron i £1,000 hyd yn hyn gan wahanol noddwyr, sy'n cynnwys rhai o'r ardal hon. Os hoffech gyfrannu i ymdrech Bob a Rhian Jones mae'n bosibl cysylltu á hwy ar 01978 365 302

## Ennill gwobr



Dai Jones, Llywydd Sioe'r Cardis, a'i wraig Olwen yn cyflwyno medalau hir wasanaeth i'r ddau frawd Edgar a John Price, Llwyn, Cwmerfyn. Bu'r ddau yn gweithio am dros 20 mlynedd yng Ngogerddan a Bronwydd Mawr (ger Aberhonddu). Llun: Tegwyn Roberts

## Cyflwyno siec



Yn Llety Parc ar Nos Fercher 15fed o Fedi cyflwynwyd siec am £8,308 i Bwyllgor y Gogledd - Sioe'r Cardis gan y teulu Evans, Cwmwythig. Codwyd yr arian mewn cyngerdd a gynhaliwyd ar y fferm yn Gorffennaf gyda adloniant gan Iwan Parry, Wil Tan a Bois y Fro gyda eitemau i'r ocsiwn yn rhoddedig drwy garedigrwydd busnesau lleol a ffrindiau o'r Pwyllgor

Yn y llun gwelir aelodau o Bwyllgor y Gogledd o'r chwith i'r dde Neville Jones (Trysorydd), Eirlys Lloyd (ysgrifenydd), Arnold Evans, Dai Jones (Llywydd), Cynthia Evans, Hugh Tudor (cadeirydd )

# Y TINCER

- un o bapurau bro Ceredigion | Sefydlwyd Medi 1977

ISSN 0963-925X | Rhif 332 | Hydref 2010


Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

CYDNABYDDIR CEFNOGAETH BWRDD YR IAITH GYMRAEG

## SWYDDOGION

**GOLYGYDD** - Ceris Gruffudd
Rhos Helyg, 23 Maesyrefail
Penrhyn-coch ☎ 828017
Rhoshelyg@btinternet.com

**TEIPYDD** - Iona Bailey

**CYSODYDD** - Dylunio GraffEG ☎ 832980

**CADEIRYDD** - Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr, Y Borth ☎ 871334

**IS-GADEIRYDD** - Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno. Goginan ☎ 880228

**YSGRIFENNYDD** - Anwen Pierce
46 Bryncastell, Bow Street ☎ 828337

**TRYSORYDD** - Hedydd Cunningham, Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre, Aberystwyth SY24 5NX
☎ 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**HYSBYSEBION** - Rhodri Morgan, Maes Mieri Llandre, ☎ 828 729 rhodrimoc@yahoo.co.uk

**LLUNIAU** - Peter Henley
Dôleglur, Bow Street ☎ 828173

**TASG Y TINCER** - Anwen Pierce

**TREFNYDD GWERTHIANT A THREFNYDD CYFEILLION Y TINCER** - Bryn Roberts
4 Brynmeillion, Bow Street ☎ 828136

## GOHEBYDDION LLEOL

**ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL**
Mrs Beti Daniel, Glyn Rheidol ☎ 880 691

**Y BORTH**
Elin Hefin, Ynyswen, Stryd Fawr
elin.john@yahoo.co.uk

**BOW STREET**
Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro ☎ 828 102
Lynn Phillips, 1 Cae'r Odyn ☎ 820908
Anwen Pierce, 46 Bryncastell ☎ 828 337

**CAPEL BANGOR/PEN-LLWYN**
Mrs Aeronwy Lewis, Rheidol Banc
Blaengeuffordd ☎ 880 645

**CAPEL MADOG, CEFN-LLWYD A CAPEL DEWI**
Dai Evans, Fferm Fronfraith, Comins-coch, ☎ 623660
Elwyna Davies, Tyncwm ☎ 880275

**DÔL-Y-BONT**
Mrs Llinos Evans, Dôlwerdd ☎ 871 615

**DOLAU**
Mrs Margaret Rees, Seintwar ☎ 828 309

**GOGINAN**
Mrs Bethan Bebb, Penpistyll, Cwmbrwyno ☎ 880 228

**LLANDRE**
Mrs Mair England Pantyglyn, Llandre ☎ 828693

**PENRHYN-COCH**
Mairwen Jones, 7 Tan-y-berth ☎ 820642

**TREFEURIG**
Mrs Edwina Davies, Darren Villa
Pen-bont Rhydybeddau ☎ 828 296

# DYDDIADUR Y TINCER

Y DYDDIAD OLAF Y BYDD GOHEBWYR LLEOL YN DERBYN DEUNYDD AR GYFER Y RHIFYN NESAF FYDD TACHWEDD 11 a TACHWEDD 12 I'R GOLYGYDD. DYDDIAD CYHOEDDI TACHWEDD 25

**HYDREF 15** Nos Wener Darlith agoriadol Cymdeithas y Garn gan Lyn Ebenezer yn festri'r Garn am 7.30.

**HYDREF 15** Nos Wener Arad Goch yn cyflwyno Cwrw chips a darlith deg yn Neuadd Tal-y-bont am 7.30. Tocynnau 823560 (Falyri Jenkins)

**HYDREF 20** Nos Fercher Cofio BJ yng nghwmni Andrea Parry ac eraill. Cymdeithas y Penrhyn yn Festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

**HYDREF 21** Nos Iau Darlith gan yr Athro Dafydd Johnson am Ddafydd ap Gwilym yng Nghapel Horeb, Penrhyn-coch am 7.30 Trefnir gan Gymdeithas Canolfan Dafydd ap Gwilym. Manylion cyswllt: Dr Tedi Millward, 44 Ger-y-llan, Penrhyn-coch. **Sylwer ar y dyddiad cywir.**

**HYDREF 22** Nos Wener Actoresau yn ... dweud storiau yng Nghanolfan y Celfyddydau am 7.30

**HYDREF 30** Dydd Sadwrn Sioe PERTHYN yn Llyfrgell Genedlaethol Cymru, Aberystwyth rhwng 12-5.00

**HYDREF 30** Nos Sadwrn Cyngerdd i'r Galon, Corau Meibion Ceredigion –(Aberystwyth – Blaen-porth – Caron –Cwm-ann yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth. Tocyn £10.00 ar gael oddi wrth Janice Petche (01970) 828861 neu Rowland Jones (01974) 241328. Elw at Apêl Nyrs Calon Ceredigion.

**HYDREF 30** Nos Sadwrn Cofiwch droi y cloc awr yn ôl!

**TACHWEDD 6** Nos Sadwrn Y Glerorfa yng Nghanolfan y Celfyddydau am 8.00

**TACHWEDD 17** Nos Fercher Manon Steffan Ros – Dylanwad Hel achau wrth lenydda. Cymdeithas y Penrhyn yn Festri Horeb, Penrhyn-coch am 7.30

**TACHWEDD 19** a 20** Nosweithiau Gwener a Sadwrn Arad Goch yn cyflwyno Cwrw chips a darlith deg yng Nghanolfan Arad Goch am 7.30. Tocynnau 617998 (**Cyflwyniad i Ddysgwyr o flaen llaw)

**TACHWEDD 20** Dydd Sadwrn Eisteddfod Ffermwyr Ifanc Cymru yn y Neuadd Fawr, Aberystwyth. Trefnir gan Ffederasiwn Maldwyn

**TACHWEDD 25-26** Dyddiau Iau a Gwener Cwmni Mega yn cyflwyno Myrddin am 9.45am a 12.45pm

**TACHWEDD 26** Nos Wener Cwis dan ofal Gwyn Jenkins, Tal-y-bont. Cymdeithas Lenyddol y Garn yn festri'r Garn am 7.30

**Y Tincer trwy'r post:**
Pris 10 rhifyn - £15 (Dosbarth 1af) £14 (Ail Ddosbarth) (£25 i wlad y tu allan i Ewrop). Cysylltwch â'r Trysorydd - Hedydd Cunningham, Tyddyn-Pen-y-Gaer, Llandre Aberystwyth SY24 5NX (01970) 820652 hedyddcunningham@live.co.uk

**Y Tincer ar dâp** - Mae modd cael y Tincer ar gaset ar gyfer y rhai sydd â'r golwg yn pallu. Cysylltwch â Rhiain Lewis, Glynllifon, 17 Heol Alun, Aberystwyth, SY23 3BB 612 984

**Camera'r Tincer** - Cofiwch am gamera digidol y Tincer – mae ar gael i unrhyw un yn yr ardal fydd am ei fenthyg i dynnu llun ar gyfer y papur o gyngerdd, cinio neu ddigwyddiad a gynhelir o fewn ein dalgylch. Fe'i cedwir gan Mrs Mair Lewis, 40 Maes Ceiro, Bow Street (☎ 828102). Os byddwch am gael llun eich noson goffi yn Y Tincer defnyddiwch y camera.

**CYFEILLION Y TINCER**

Dyma fanylion enillwyr Cyfeillion *Y Tincer* Mis Medi.

£25 (Rhif 29) Mrs Connie Evans, 18 Pen-llwyn, Capel Bangor.
£15 (Rhif147) Aneurin L Rowlands, Rhos-goch, Capel Madog.
£10 (Rhif 7) Sioned P Rowlands, Dolbebin, Bow Street.

Fe dynwyd y rhifau buddugol gan aelodau o bwyllgor Cor Cantre'r Gwaelod yn dilyn ymarfer Nos Sul y 19eg o Fedi. Cysylltwch â'r Trefnydd, Bryn Roberts, 4 Brynmeillion, Bow Street, os am fod yn aelod.

Am restr o Gyfeillion y Tincer 2010 gweler www.trefeurig.org/uploads/cyfeilliontincer2009.pdf

Y TINCER

### Galw Corau Cymru

Cyhoeddodd S4C yn ddiweddar y bydd cystadleuaeth boblogaiddd Côr Cymru yn dychwelyd yn 2011. Cynhelir y rowndiau cyn-derfynol ar benwythnos Mawrth 4ydd — 6ed 2011, a'r rownd derfynol ar Sul, Ebrill 10ed 2011 yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth. Bydd pob côr sy'n cyrraedd y rowndiau cyn-derfynol yn derbyn gwobr o £500 a bydd enillwyr y categoriau uchod yn derbyn gwobr o £1,500, ac yn cystadlu yn erbyn ei gilydd am y teitl Côr Cymru 2011 a'r brif wobr o £5,000.

Bydd y corau'n cael ei recordio ar draws Cymru ym mis Tachwedd 2010, ac mae'r dyddiad cau am geisiadau ar Hydref 8ed. Mae pump categori yn y gystadleuaeth, corau plant, ieuenctid, merched, meibion a chymysg. Os am fwy o wybodaeth, ffoniwch Rondo ar 029 2022 3456 neu ymweld â www.rondomedia.co.uk

### Diolchgarwch am y Cynhaeaf, Eglwys St. Pedr, Elerch

Cynhelir cwrdd diolchgarwch Eglwys St. Pedr, Elerch ar Ddydd Sul, 31 Hydref am 2.30 pm. Bydd hwn yn gwrdd undebol gydag aelodau Eglwysi Penrhyn-coch a Chapel Bangor. Pregethir gan Y Parchg Andy Herrick, Eglwys Santes Ann, Penparcau. Estynnir croeso cynnes i bawb.

### Gweithdy Corawl Côr ABC

Yn gynharach eleni, bu Côr ABC yn ffodus i dderbyn grant gan gynllun Choral Ambition, Cronfa Celfyddydau Perfformio'r BBC, i'r diben o ariannu cyfres o weithdai corawl er mwyn hybu datblygiad y côr. Yn ystod tymor yr haf, felly, daeth yr arweinydd corawl adnabyddus, Islwyn Evans, i mewn atom i gynnal amryw o sesiynau hyfforddiant, gan roi cymorth penodol i ni wrth baratoi tuag at gystadlu yng Ngŵyl Fawr Aberteifi. Bu'r gweithdai yn dipyn o agoriad llygad, ac fe gawsom weld eu heffaith bron ar unwaith gan i ni gipio'r wobr gyntaf yn y gystadleuaeth i gorau cymysg yn yr ŵyl Fawr gyda chanmoliaeth uchel. Yn benllanw i'r holl gynllun, ar ddydd Sadwrn, Medi'r 18fed, cynhaliwyd gweithdy corawl undydd dan arweiniad Islwyn Evans unwaith eto, ond y tro hwn yn agored i'r cyhoedd. Roedd hi'n braf iawn cael croesawu sawl wyneb newydd ato ni, a chafwyd diwrnod hwyliog a buddiol iawn wrth i ni brofi dulliau unigryw Islwyn o weithio a dysgu. Ry'n ni'n ddiolchgar iawn i Gronfa Celfyddydau Perfformio'r BBC am ariannu'r cynllun; cynllun na fyddai wedi bod yn bosibl heb eu cymorth.



# Wynebu'r Her - Dechrau Newydd!

**Cyflwyno Efan Williams Swyddog Datblygu Gwaith Plant ac Ieuenctid**



Her arbennig i Gristnogion heddiw yw ceisio sicrhau parhad y dystiolaeth i'r dyfodol. I'r perwyl hwnnw sefydlwyd Menter Gydenwadol Eglwysi Gogledd Ceredigion yn bartneriaeth rhwng yr Annibynwyr, Bedyddwyr a'r Presbyteriaid er mwyn, yn yr oes sydd ohoni, hyrwyddo cyflwyno neges Efengyl Grist i blant ac ieuenctid yr ardal.

Balch yw Bwrdd Rheoli'r Fenter i gyhoeddi penodi Efan Miles Williams o Ledrod i'r swydd o Swyddog Datblygu a Hyrwyddo Gwaith Plant ac Ieuenctid. Swydd tair blynedd yw hon yn y lle cyntaf. Bydd hon yn swydd allweddol ac arloesol nid yn unig i weithio gyda phlant ac ieuenctid ond hefyd i hyrwyddo a chefnogi gwaith athrawon Ysgolion Sul ac arweinwyr ac aelodau eglwysig yn yr ardal.

Gyda'i wreiddiau yng Nghapel Rhydlwyd sonia Efan am ei gefndir a'i fwriadau.

"... Rwy'n frodor o Ledrod, ger Aberystwyth, ac yn aelod o gapel Rhydlwyd, Lledrod. Rwy'n gyn-ddisgybl o Ysgol Uwchradd Tregaron a Phenweddig, yn gyn-fyfyriwr Prifysgol Aberystwyth ac yn athro cymwysedig.

Rwy'n edrych ymlaen yn eiddgar at wynebu her sylweddol y gwaith o weithio gyda phlant ac ieuenctid ein hardal ni yng ngogledd Ceredigion. Rwy'n bwriadu cefnogi'r gwaith da sydd yn barod yn digwydd yn yr ardal, ynghyd â chynnal grwpiau, clybiau, a gweithgareddau newydd a fydd yn gyfle i'n pobl ifanc fwynhau cwmni ei gilydd mewn gweithgareddau hwylus a phositif.

Rwyf wedi dechrau ar y gwaith o ymweld â chlybiau ac Ysgolion Sul yr ardal, ac rwy'n edrych ymlaen yn fawr i ddod i adnabod ein pobl ifanc yn rhinwedd y swydd gyffrous yma...."

Mae cerddoriaeth yn un o'i brif ddiddordebau ac mae'n unawdydd ac yn aelod o gorau lleol. Treulidd gyfnodau yn Ffrainc a'r Almaen.

Cynhelir Gwasanaeth arbennig i gomisiynu Efan yn ei Swydd yn yr Eglwys y mae'n aelod ohoni ac y magwyd ef ynddi sef Capel Rhydlwyd, Lledrod brynhawn ddydd Sul Tachwedd 14eg 2010 am 2 o'r gloch. Traddodir anerchiad gan y Parch Andrew Lenny, Llywydd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg. Hyderir yn fawr y bydd aelodau eglwysi'r ardal yn oedolion, ieuenctid a phlant yn mynychu'r gwasanaeth i gefnogi Efan i'w gefnogi a'i annog yn y swydd hollbwysig a phellgyrhaeddol hon.

# 30 Mlynedd 'Nôl




Bu yn ddiwrnod hapus a chofiadwy yn hanes Pwyllgor ac aelodau Cymdeithas y Gwragedd o Fad Achub y Borth, pan gawsant eu hanrhydeddu ag ymweliad oddi wrth Gyfarwyddwr yr RNLI- Y Llyngesydd Graham, a gyflwynodd gydnabyddiaethau am hir-wasanaeth i'r Gymdeithas i Mrs Frances Jones a Miss Muriel Kind. Hefyd yn y darlun mae Mrs Graham, Mrs Garfield Davies (Llywydd), Mrs Jean Wyn Cowell (Cadeirydd) - a oedd wedi trefnu'r seremoni a Mr Glyn Williams (Ysgrifennydd Rhanbarthol) O'r Tincer Hydref 1980

# Y BORTH



### Llongyfarchiadau

I Dr. Catrin Webster (Tua'r Nen-tu ôl i'r Gragen) am ennill ei gradd Doethuriaeth o Goleg Celf Aberystwyth yn ddiweddar. Hefyd rhaid ei llongyfarch ymhellach ar gael ei phenodi yn ddarlithydd Celf ym Mhrifysgol Abertawe.



Dydd Sadwrn 18 Medi pan oedd y Pab Bened XVI mewn gwasanaeth yn Eglwys Gadeiriol Westminster yn Llundain cyflwynwyd iddo gopi ffacsimili o *Y Drych Cristianogawl*, y llyfr Catholig a'r llyfr cyntaf i'w argraffu ar dir Cymru. Argraffwyd y llyfr yn gyfrinachol gan Gatholigion Cymru yn 1586 mewn ogof ar benrhyn Rhiwledyn yn Llandudno, i ffwrdd o lygaid lluoedd y Goron Protestannaidd. Mae'r *Drych Cristianogawl* yn draethawd byr ar gariad at Dduw o safbwynt Catholig. Ysgrifennwyd y llyfr â llaw-ysgrifenedig a'u danfon o'r Eidal i Gymru. Er mwyn twyllo lluoedd y Frenhines Brotestannaidd, Elisabeth I, argraffwyd ar y llyfr ei fod wedi ei gyhoeddi yn Rouen yn Ffrainc a rhoddwyd y flwyddyn 1585. Cynhyrchwyd y copi ffacsimili yma o'r llyfr gan Julian Thomas, Ynys-las, aelod o staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Mae Julian yn un o brif rwymwyr a gwneuthurwyr copïau ffacsimili ym Mhrydain a chaiff ei ddewis yn rheolaidd i greu copi rhwymedig cywrain o un o'r chwe llyfr yn rownd derfynol gwobr lyfrau'r Booker Prize. Mesura'r llyfr ond pum modfedd a hanner gan bedair modfedd - yn ddigon twt i'w guddio a'i gario mewn poced. Mae'n cynnwys 180 tudalen mewn print Gothig Seisnig. Mae pedwar copi o'r llyfr wedi goroesi ond mae'r unig un cyflawn perffaith yn y Llyfrgell Genedlaethol.

### Gwirfoddolwyr Gorsaf y Borth

Mae'r gwaith yn yr orsaf yn mynd yn ei flaen- y gwirfoddolwyr yn parhau i gadw'r lle'n lân ac yn daclus dros wyliau'r hâf- rhywun gwahanol yn gyfrifol bob mis. Yn ogystal, mae'r gwaith wedi dechrau ar glirio hen stafelloedd yr orsaf-y swyddfa docynnau a'r stafelloedd gerllaw-hyn i gyd er mwyn paratoi ar gyfer prosiect uchelgeisiol o greu amgueddfa fechan yn yr ystafelloedd gweigion. Amgueddfa fydd yn rhoi hanes y rheilffordd, ei gysylltiad â'r pentre a'r diwydiant lleol, yn ogystal ag ailgreu swyddfa docynnau fel ag yr oedd slawer dydd.

Bu George Romary yn brysur iawn ers misoedd yn sicrhau grantiau ac amrywiol ganiatâd gan wahanol gyrff a.y.y.b a'r gobaith yw cychwyn y gwaith addasu cyn y Nadolig.

Cafwyd Cyfarfod Cyffredinol blynyddol ar y 30ain o Fedi a chawsom gyflwyniad 'Power Point' diddorol gan George yn olrhain hanes Prosiect yr Orsaf hyd yn hyn, yna trafodwyd yr angen i ddenu mwy o wirfoddolwyr i gynorthwyo gyda'r datblygiadau cyffrous. Y bwriad fydd agor yr Amgueddfa ganol y flwyddyn nesaf pan fydd angen mwy o wirfoddolwyr i helpu am fore/ prynhawn, fan hyn fan draw, fel rhan o dîm fydd yn ymgymryd ag agor yr Amgueddfa (ar y penwythnosau i ddechrau ac ar adegau penodol yn ystod y flwyddyn).

Newyddion cyffrous iawn yw fod Gwenllian Ashley, cyn is -Guradur Amgueddfa Ceredigion, wedi cytuno i weithredu fel 'Curadur Amgueddfa Gorsaf y Borth' ac fe groesawir ei harbenigedd a'i brwdfrydedd yn fawr.

Os hoffech ymuno â'r fenter yma, gan wirfoddoli mewn unrhyw fodd-dyfrhau blodau/ cadw cyfrifon/paentio/gofalu am yr Arddangosfa am fore/ casglu sbwriel (!) yna cysylltwch â Elin Hefin (871334)- bydde'n hyfryd cael eich cwmni.

### Y Morglawdd

Mae bwrlwm pob Jac Codi Baw melyn yn bleser pur i'r




## DYSGWR Y MIS



**Beth yw eich enw?** Gwenda Williams.

**Faint yw eich oed?** 82.

**Ers faint ydych chi wedi bod yn dysgu Cymraeg?** Ers i fi fod yn 23ain oed. Roedd fy rhieni yn Gymry Cymraeg ond yn anffodus Saesneg oedd iaith y cartre'. Dysgodd fy mrawd a fy chwaer i siarad Cymraeg hefyd.

**Ble oeddech chi'n dysgu Cymraeg?** Chefais i erioed wersi ffurfiol, dysgais i pan yn byw gyda theulu Cymraeg eu hiaith.

**O le ydych chi'n dod yn wreiddiol?** Penbedw*
Pam benderfynoch chi ddysgu Cymraeg? Dysgais ychydig o Gymraeg ar ôl dychwelyd i'r Rhondda o Benbedw, ond doeddwn i ddim yn gallu cynnal sgwrs bryd hynny. Ym 1951 dechreuais ddysgu Ymarfer Corff yn ysgol Maesydderwen ac Ysgol Ynyscedwyn, Ystalafera a chefais lety gyda theulu hyfryd. Roedd pawb yn y teulu'n siarad Cymraeg â'i gilydd ac yn troi i'r Saesneg er fy mwyn i. Penderfynais ddysgu Cymraeg o'r foment honno 'mlaen.
Pryd, neu gyda phwy ydych chi'n siarad Cymraeg? Gyda fy mhlant, fy wyrion, fy nheulu estynedig, ffrindiau ac unrhyw un sy'n siarad Cymraeg!
*Penbedw = Birkenhead (Gol.)

llygad. Maent wrthi'r mis hwn yn atgyfnerthu Penro. Yn ôl gyrrwyr y Jacs, bydd y gwaith mawr ar y 'reefs' a'r 'barriers' yn dechrau ddiwedd y mis pan fydd y bwrlwm yn fwy fyth. Gobeithio caiff y gwaith hirddisgwyliedig lwc gyda'r tywydd a bod dim rhaid dioddef glaw erchyll- fel y cafwyd yn y Cwpan Ryder!

### Gwellad buan

Anfonwn ein dymuniada gorau at Mr. Glynne Evans, Moorlands, sydd wedi bod yn anhwylus yn ddiweddar.

### Ryan Giggs

Enillydd y gystadleuaeth pêl droed gafwyd yn y rhifyn ddiwethaf oedd Joan Jones, Cae'r Odyn, Bow St. Yr ateb oedd Ryan Giggs!

### Y Clwb Pêl-droed-Brain y Borth- Helyg ar yr Heli

Mae'n fwriad gan y clwb pêl-droed blannu 25ain o goed helyg ger y maes chwarae. Bydd hyn, nid yn unig yn addurno'r cae ond hefyd yr ardal o gwmpas y neuadd. Gellir prynu un o'r coed (sydd eisioes yn 15 troedfedd ac yn tyfu mewn pum mlynedd i fod yn 25ain o droedfeddi). Mae modd prynu fel unigolyn neu sefydliad, a'r pris yw £65.00. Bydd cofnod wrth droed pob coeden fel bod modd cofio rhywun annwyl os dymunir. Cysylltir â Peter Fleming ar 871042 neu 07773 846 659 am fwy o wybodaeth.





## CLWB GOLFF Y BORTH AC YNYS-LAS

**Adran Iau**
Mae Zach Galliford, Capten Adran Iau y Clwb wedi cael blwyddyn o golff llwyddiannus iawn. Ym mis Gorffennaf death yn 40ed allan o 120 o chwaraewyr ym Mhencampwriaeth i Fechgyn Ewrop o dan 18 oed yn Nhwrci. Pythefnos yn hwyrach bu'n chwarae ym Mhencampwriaeth Meistri Ifanc yn Hwngari lle ddaeth yn 9fed allan o 56 o chwaraewyr, gyda tîm Cymru yn gorffen y gystadleuaeth yn yr 11ed safle.

O ganlyniad i'w berfformiad yng nghystadleuaeth Pencampwriaeth i Fechgyn Ewrop cafodd Zach ei ddewis i dîm Cymru i chwarae yn y gêmau rhyngwladol gartref yn Dumfries yn yr Alban ac i fod yn gapten ar dîm Cymru o dan 16 oed yn erbyn Lloegr. Mae Zach hefyd yn Bencampwr Ysgolion Dyfed ac yn Bencampwr Ysgolion Cymru ac eleni fe oedd Capten Tim Ysgolion Cymru yn y gêm yn erbyn Lloegr ar gwrs St Pierre yng Nghasgwent.

Yn y llun gwelir Zach yn ystod y gêmau rhyngwladol cartref.



Daeth dros 40 o chwaraewyr ifanc a'u gwesteion i Ddiwrnod Capten yr Adran Iau yn y Borth. Roedd y tywydd yn braf a phawb wedi mwynhau diwrnod o golff a'r pryd o fwyd a'r gwobrwyo.

Canlyniadau Diwrnod Capten yr Adran Iau:
Cystadleuaeth "Puttio": 1af, Sion Ewart (Bow Street); 2il, Ben Slater (Y Borth)
"Drive" hiraf: Colin Tuft (Yr Wyddgrug)
Agosaf at y "pin": Daniel Basnett (Bont-goch)
Agosaf at y "pin" ail ergyd: Louis Tuft (Yr Wyddgrug)
Cystadleuaeth y Cwrs Ymarfer: 1af, Sion Manley, 11 pwynt (Bow Street); 2il, Rhys Evans 16 pwynt (Y Borth); 3ydd, Cameron Saunders (Llandre)
Cystadleuaeth Medal: Gross gorau: Daniel Basnett (Bont-goch); Ymwelwyr gorau: Adam Tuft (Yr Wyddgrug); Nett gorau: Iolo ap Dafydd (Goginan) 85:20:65; 2il: Aaron Bull (Capel Bangor) 96:26:70; 3ydd: Jordan Roberts (Rhydyfelin) 93:23:70.
Medal Misol Hydref: Gross gorau: Zach Galliford (Y Borth); 1af: Chris Davies (Clarach) 96:26:70 (9 cefn); 2il: Ellis Lewis (Bow Street) 85:15:70; 3ydd: Jordan Roberts (Rhydyfelin) 97:23:74.
1af Medi — Cystadleuaeth "Rumble" i 3 chwaraewr: 1af: Gethin Morgan, Jordan a Tyler Roberts — 126 pwynt; 2il: Luke Williams, Tomos Wyn Roberts a Ellis Lewis — 132 pwynt; 3ydd: Zach Galliford, Gwenno Morris a Dafydd Thomas — 133 pwynt.
12 Medi — Cystadleuaeth Stableford: 1af: Chris Davies (Clarach) 36 pwynt; 2il: Angharad Basnett (Bont-goch) 31 pwynt; 3ydd: Gwenno Morris (Penrhyn-coch) 30 pwynt,
26 Medi — Cystadleuaeth Stableford: 1af: Ellis Lewis (Bow Street) 38 pwynt; 2il: Aaron Bull (Capel Bangor) 32 pwynt; 3ydd: Gethin Morgan (Pisgah) 31 pwynt.


O dan y môr a'i donnau, Mae llawer dinas dlos, Fu'n gwrando ar y clychau Yn canu gyda'r nos.
oriel Tir a Môr gallery
01970 871 042
Eich Arbenigwr Celf a Fframio Lleol
Peter Fleming
High Street, Borth, SY24 5HZ
Tel: 01970 871 042

GWAITH GARDDIO
Am bob math o waith garddio ffoniwch Robert ar (01970) 820924

GAREJ CWRT
PEIRIANWYR MODURON
GWASANAETH TRWSIO . TIWNIO M.O.T. a.y.b
Ar agor 8a.m. - 6p.m. Llun - Gwener
PENRHYN-COCH ABERYSTWYTH
Ffôn Aberystwyth 820 090

GWASANAETH TEIPIO
GWAITH PRYDLON A CHYWIR
PRISIAU CYSTADLEUOL
* PROSESYDD GEIRIAU *
* PRINTYDD LLIW *
Iona Bailey
Pen-y-bryn
Swyddffynnon
Ystrad Meurig
Ffôn 01974 831580

CYSYLLTWCH Â NI
ytincer@googlemail.com

# PEN-LLWYN/CAPEL BANGOR

**Pregethwyr y Sul Capel Pen-llwyn 10 o'r gloch y bore**

**Hydref**
17 Gordon Macdonald
24 Gwyn Davies
31 Huw Roderick Dyffryn am 5 hwyr

**Tachwedd**
7 Elwyn Pryse
14 Rhidian Griffiths
21 Steffan Jones
28 Terry Edwards

## Cydymdeimlad

Estynnwn ein cydymdeimlad â Mr a Mrs Scott, Brynawel; - Noel wedi colli chwaer yn ddiweddar o Swydd Efrog.

## Ysbyty

Gwellhad llwyr a buan i Mr J E Morris, Glennydd, a oedd yn yr ysbyty pan yn mynd i'r wasg. Hefyd, yr un dymuniadau gorau i Mrs Enid Jones, Awel dêg, a Mr E Griffiths, Penlôn, Capel Bangor. Cofiwn amdanoch eich tri.

## Cap i Gymru

Llongyfarchiadau mawr i Rhydian Davies, Ceunant, a fu yn chwarae pêl droed dros Gymru (o dan 16) yn ddiweddar. Da iawn ti Rhydian, rwyt wedi cyflawni dy freuddwyd. Pob hwyl yn y dyfodol, ac efallai y cawn lun ohonot pan fyddi wedi derbyn dy gap diwedd y flwyddyn.

## Rhybudd o flaen llaw

Oherwydd newid ym mholisi Cyngor Sir Ceredigion parthed ailgylchu, ni fydd y ganolfan ailgylchu ger Neuadd Pen-llwyn ar gael yn y flwyddyn newydd, heblaw am un blwch i ddal gwydr ac efallai blwch Byddin yr Iachawdwriaeth i hel dillad ac esgidiau.

## Merched y Wawr – Cangen Melindwr

Daeth gweithgareddau'r tymor diwethaf i ben drwy ddringo yn y trên i ben Craig Glais. Yno mwynhawyd pryd blasus a chyfle i sgwrsio â'n gilydd.

Erbyn dechrau'n tymor newydd ym mis Medi roedd swyddogion newydd wrth y llyw, sef Angharad Jones, Llywydd; Liz Collison, Is-lywydd; Aerona Armitage, Ysgrifennydd; Llinos Jones, Is-ysgrifennydd; Glenys Jones, Trysorydd; Eirwen McAnulty, Is-drysorydd; Anne James, Dosbarthwr Y Wawr; Delyth Davies, Gohebydd y wasg.

Syndod o'r mwyaf a gafodd yr aelodau o gyrraedd Neuadd Bentref Capel Bangor a'i chael yn llawn o gŵn ar nos Fawrth, 7fed Medi. Yn ffodus fe'n gwahoddwyd i fynd i Neuadd yr Eglwys ac yno y cynhaliwyd noson agoriadol y tymor.

Croesawyd pawb gan ein llywydd ac fe ddiolchodd i swyddogion y flwyddyn flaenorol am eu gwaith. Cafwyd braslun o weithgareddau'r Mudiad yn ystod yr wythnosau nesaf — yn y rhanbarth ac yn genedlaethol. Jane Raw-Rees o Gyngor yr Henoed oedd ein gwraig wadd a chlywsom ganddi ychydig o gefndir y mudiad hwn a ddechreuwyd yng Ngheredigion ar ddechrau nawdegau'r ganrif ddiwethaf. Soniodd wrthym am y modd maent yn gweithio a sut y maent yn cael eu hariannu. Fe glywsom am y gwirfoddolwyr sydd yn ymwneud â Chyngor yr Henoed ac am y gwasanaethau amrywiol a gynigir ganddynt.



Rowan Edwards yn derbyn y wobr oddi wrth Mr Daniel Evans, Ponterwyd, Llywydd y Sioe.

Diolchodd Angharad Jones i Jane Raw-Rees. Enillwyd y raffl gan Hannah Davies. Mwynhawyd sgwrs dros gwpanaid o de cyn mynd tua thref.

Y noson flaenorol teithiodd rhai o'r aelodau i Aberaeron i'r rhagolwg o'r gyfres ddrama a ddangosir ar S4C sef Pen Talar.

## Y shot orau

Go dda Rowan Edwards, Stad Pen-llwyn, sy'n ddisgybl yn Ysgol Pen-glais, ar ennill y gystadleuaeth saethu colomennod clai yn Ffair Flynyddol Ponterwyd yn ddiweddar. Rhaid fod gennyt aneliad da Rowan, dal ati.

## Damwain

Blin oedd clywed fod Mr Richard Evans, Exchange, wedi cael niwed wrth syrthio i lawr o ysgol. Gobeithio ei fod yn well erbyn hyn.



## Cystadleuaeth Gweithiau ac Adeiladau Fferm

Llongyfarchiadau mawr i deulu Cwmwythig am ennill y gystadleuaeth uchod, pryd y cyflwynwyd iddynt yn Sioe Frenhinol Cymru eleni. Y Drywel Arian Ystâd Peniarth, yn ogystal a thystysgrif.

Beirniadwyd y cystadleuwyr ar yr adeilad sy'n ymgorffori yn orau anghenion ffermio'r unfed ganrif ar hugain. Yn ychwanegol i'r parlwr godro troi, roedd tri adeilad arall i'r gwartheg yn gynwysiedig yn y cynnig. Roedd y cyfan o'r adeiladau wedi gwneud argraff ar y beirniaid, yn lân ac yn rhydd o unrhyw rwystrau. Hefyd o safon uchel o reolaeth o'r cyfleusterau ac o'u ymddangosiad cyfan.

Mae teulu Cwmwythig yn amlwg yn dîm da. Enillwyd y gystadleuaeth gan Mr a Mrs Evans o'r blaen ym 1978. Pob dymuniad da iddynt yn y dyfodol.



**Cofio Richard Livsey**

Cafodd Richard Livsey ei gladdu ym mynwent eglwys Sant Gwendolen, Talgarth ar Fedi 25 ychydig latheidi o'r fan lle cafodd Williams Pantycelyn droedigaeth dan ddylanwad Hywel Harris dros ddwy ganrif a hanner yn ól. Tynnwyd sylw at hynny yn y bregeth deyrnged er mwyn pwysleisio ymlyniad Richard i'r traddodiad Cristnogol Cymreig a'i wladgarwch angerddol fel ei gilydd. Mi ges y fraint o gydweithio ag e droeon ar faterion perthnasol i amaethyddiaeth a chefn gwlad ac yn arbennig adeg refferendwm 1997 ar sefydlu Cynulliad Cenedlaethol i Gymru. Dros y blynyddau diwethaf fe weithiodd yn ddygn o blaid rhoi pwerau deddfu i'r Cynulliad ac roedd yn gefnogwr brwd i'r ymgyrch i sicrhau llwyddiant yn y refferendwm ar y mater yna fis Mawrth nesaf.

Nodwedd fwyaf trawiadol ei gymeriad ond odid oedd ei wasanaethgarwch anhuangar. Lles ei gyd-ddyn, ei gymdeithas a'i genedl oedd yn bwysig iddo bob amser. Bydd bwlch mawr ar ei ól. Bydd darllenwyr *y Tincer* yn cofio i Richard dreulio cyfnod yn ddarlithydd yn Ngholeg Amaethyddol Cymru ac roedd yn gymrawd o Brifysgol Aberystwyth.

*Cynog Dafis*

Bu Richard Livsey a'r teulu yn byw yn Fferm Pentref tua 30 mlynedd yn ôl.

**BWLCH NANT YR ARIAN**

Mae'r Comisiwn Coedwigaeth wedi gorfod cwympo hyd at 60 o goed derw oherwydd clefyd marwol mewn coedwig ger Aberystwyth. Dywedodd y Comisiwn fod y clefyd, phytophthora ramorum, wedi effeithio ar goed llarwydden Japan ger Canolfan Ymwelwyr Bwlch Nant yr Arian. Fe ddaeth y clefyd i'r amlwg am y tro cynta yng Nghymru ym mis Mehefin. Mae'r Comisiwn wedi dweud y bydd y ganolfan yn aros ar agor. Dywedodd Ruth Jenkins o'r Comisiwn, sy'n rheoli Bwlch Nant yr Arian ar ran Llywodraeth y Cynulliad: "Mae hwn yn glefyd difrifol ac rydyn ni'n gweithredu'n gyflym ..."

**'Cyfyngu'**
Ni fydd y clefyd yn niweidio pobl nac anifeiliaid, meddai, ac fe barodd y cwympo am bythefnos. Y nod yw cyfyngu ar gynhyrchu'r sborau sy'n lledu'r haint. Mae'r safle'n boblogaidd iawn ac mae'n bwysig cwympo'r coed cyn eu bod yn marw ac yn ansefydlog. Os yw'r coed yn ansefydlog, fe fyddai risg o bosib i ymwelwyr."

**Cyfarwyddiadau**
Bu'r llwybr o gwmpas y llyn ar gau am gyfnod a bydd rhaid i ymwelwyr ddilyn cyfarwyddiadau ar arwyddion, gan gynnwys cadw at y llwybrau, cadw ci ar dennyn a glanhau esgidiau. Bydd seiclwyr yn gorfod golchi eu beiciau a'u dillad.
Ym mis Gorffennaf cyhoeddodd y comisiwn y byddai £600,000 ar gael i helpu perchnogion coedwigoedd ddelio â'r clefyd. Ym mis Awst effeithiodd y clefyd ar goed ar dir preifat yn Sir Ddinbych.

## Cyngor Cymuned Trefeurig

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, 21 Medi, yn Ysgol Trefeurig am 7.00pm, gyda'r Is-gadeirydd, Dafydd Sheppard, yn y gadair. Roedd chwech o'r cynghorwyr eraill yn bresennol ynghyd â'r Clerc. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Trefor Davies (y Cadeirydd), Gwenan Price, Mervyn Hughes a Dai Rees Morgan.

Yn dilyn marwolaeth Mr Clive Davies, y gŵr a oedd wedi cytuno i atgyweirio'r difrod a oedd wedi'i wneud i reiliau'r Gofeb, adroddwyd fod ei fab wedi cytuno i wneud y gwaith, ac roedd yn gobeithio y gellid dod i ben â'r dasg cyn Sul y Cofio. Trafodwyd y trefniadau ar gyfer y diwrnod hwnnw; y Parchg John Livingstone oedd yn arfer cymryd y gwasanaeth, ond gan ei fod yn anhwylus, penderfynwyd holi a fyddai'n briodol i'r sawl oedd yn gwasanaethu yn Eglwys Penrhyn-coch y Sul hwnnw gymryd ei le.

Adroddodd Dafydd Sheppard ar gyfarfod gan Shelter Cymru a gynhaliwyd yn Llambed yn ystod yr haf; roedd hefyd wedi bod mewn cyfarfod PACT yn ddiweddar (cyfarfod rhwng yr heddlu a'r cyhoedd) ym Mhenrhyn-coch. Gan mai dau aelod o'r cyhoedd oedd yn bresennol, roedd y plismon a oedd yno yn credu y byddai raid ailedrych ar y cyfarfodydd hyn ac ailystyried eu gwerth. Adroddodd Kari Walker am gyfarfod y bu ynddo yn gynharach yn ystod y dydd, cyfarfod i drafod y posibilrwydd o agor gorsaf drenau yn Bow Street. Roedd TraCC (Trafnidiaeth Canolbarth Cymru) wedi llunio cynllun posib ar gyfer y datblygiad a byddai'r cynllun yn awr yn cael ei anfon ymlaen at Lywodraeth y Cynulliad, yr awdurdodau lleol a'r cwmnïau perthnasol yn y diwydiant rheilffyrdd.

Cafwyd hysbysiad gan y Cyngor Sir y byddai'r trefniadau ar gyfer casglu ysbwriel yn newid o 15 Tachwedd ymlaen. Byddai pawb yn cael eu hysbysu am y newidiadau. Daethai llythyr oddi wrth Simon White, Prif Weithredwr Un Llais Cymru, yn dweud ei fod yn ymddeol, ac y byddai Lyn Cadwallader yn cymryd ei le. Trafodwyd y cynigion a fyddai o flaen cyfarfod blynyddol Un Llais Cymru ar 9 Hydref ym Mhontrhydfendigaid, ac awdurdodwyd y ddau gynrychiolydd, y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, i benderfynu ar eu pleidleisiau ar ôl clywed y dadleuon yn y cyfarfod.

Roedd yr adroddiad drafft ar nifer a ffiniau y wardiau ar gyfer y Cyngor Sir wedi cyrraedd. Roedd yr adroddiad yn argymell y dylai Cymuned Trefeurig barhau yn ward fel ar hyn o bryd.

Nodwyd fod y ddau gais cynllunio canlynol wedi'u caniatáu; sied amaethyddol ger y Llwyn, Cwmerfyn; cais ar gyfer tŷ ar dir ger y Gelli, Penrhyn-coch. Cais newydd ar gyfer estyniad i 14 Glanceulan — dim sylwadau gan y Cyngor. Gellir gweld y cofnodion yn llawn ar www.trefeurig.org .

## TREFEURIG

**I'r coleg**

Dymuniadau gorau i Gwenno Healy, Maes Meurig, ar ei chwrs cerddoriaeth ym Mhrifysgol Hope, Lerpwl

**Pen blwydd arbennig**

Pen blwydd hapus i Emyr Edwards, Tynygwndwn, a ddathlodd ben blwydd arbennig ddechrau'r mis.

**Diolch**

Hoffai Mrs Marion Jones ddiolch yn fawr iawn i bawb am y llu o gyfarchion a'r dymuniadau da a dderbyniodd ar ei phen blwydd ar Medi 28, hefyd am y cyfraniadau hael tuag at elusen y siwgr.

# GOGINAN

## Cydymdeimlo

Cydymdeimlwn yn ddwys gyda Jane Jones a'r teulu, Hafan, Cwmbrwyno, gan ei bod yn awr wedi colli ei thad a'i dau frawd yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Oherwydd trist yw cofnodi marwolaeth sydyn ei brawd iau, Adam Kittle yn Llundain ddechrau mis Medi.

Cydymdeimlwn gyda Iris Richards, Brodawel a Meryl ar ôl marwolaeth Rhyda Richards ei chwaer yng nghyfraith yn ddiweddar.

## Pob Lwc

Dymunwn pob lwc i bobl ifanc y pentre sydd yn dechrau ar eu gyrfaoedd addysgiadol pellach. Max Kelly yn gwneud cwrs Drama a Cerddoriaeth yng Ngholeg Ceredigion, Daniel Griffiths yn gwneud cwrs Saer Cain yng Ngholeg Ceredigion, Aberteifi a'r ieua ohonynt Osian Pearce yn Ysgol Gynradd Pen-llwyn.

## Pêl-droed

Braf yw gweld bechgyn yn enedigol o'r pentref yn cynrhychioli tim pêl-droed Bow Street yn rheolaidd, sef Joseph Sherwood, Gwion ap Dafydd a Marc Evans.

## Swydd Newydd

Dymuniadau gorau hefyd i Marc Evans, Gwarllan, ar ei swydd newydd fel postmon.

## Cyri, Cwrw a Cherddoriaeth

Bu'r wyl flynyddol hon a ddethlir yn flynyddol yng Ngoginan yn lwcus unwaith eto o gael tywydd ffafriol i gynnal ei gweithgareddau. Dechreuodd y dathlu am bedwar o'r gloch ac erbyn tua saith gyda dros ddau gant o bentrefwyr a'u ffrindiau yn bresennol roedd yr awyrgylch yn wych gyda pawb yn mwynhau. Daeth y bwganod brain ( oedd wedi bod yn crwydo o amgylch y pentref) i'r parti ar gyfer eu barnu mewn cystadleuaeth. Y bwgan buddugol ar y noswaith oedd "Y Scary Fairy" sef gwaith greadigol Chrissie Nahrain.

Paratowyd cyrris, barbeciw a chacennau yn cael eu golchi i lawr gan de, coffi ac ambell i beint bach tra bu'r plant yn cynnal siop losin dan y goeden gan obeithio ei bod wedi gwneud digon o elw i dalu am yr hyn oeddynt yn fwyta.

Bu sawl band lleol yn cyfrannu at adloniant y noswaith 'Sidewinder' ac yna yn dilyn 'Chris Kane a'i Fand i ddechrau a chafwyd perffomiad arbennig gan Max Kelly ar ei gitâr Fas a 'Blue Tree' yn dilyn yn swyno gyda'i sain jas disglair. Yr Old Codgers, The Present, Spiral Groove yn llawn sŵn ac egni ac yn olaf The Unknown - band ifanc ac o bosib ddyfodol disglair o'i flaen. Braf yw byw mewn ardal â chymaint o dalent cerddorol.

Diolch yn fawr i bawb wnaeth gyfrannu at lwyddiant y noswaith gan greu awrgylch drydanol i'r parti.

## Newid Aelwyd

Mae Eric a Margaret Stephens, Erwdeg gynt, yn setlo mewn yn dda yn eu cartref newydd yn Aberystwyth. Llongyfarchiadaun iddynt am ddod yn dad-cu a mam-gu unwaith eto. Ganwyd mab bach, Cian i Gaynor a Jon yn Abertawe, brawd bach i Rebeca a Mathew. Pob hapusrwydd a dymuniadau gorau i'r ddau deulu.

## Capel y Dyffryn

Cynhaliwyd Cwrdd Diolch am y cynhaeaf, Nos Wener, Hydref 1. Cafwyd oedfa fendithiol gyda pregeth rymus ac amserol gan y Parchedig J.E.Wynne Davies, Aberystwyth. Braf oedd croesawu i'r oedfa nifer o gyfeillion o ardaloedd cyfagos. Roedd y capel wedi ei addurno yn hardd iawn — yn wledd i'r llygad. Diolch i Mrs Eirlys Davies, Brynmeillion am ei llafur cariad yn trefnu'r blodau

## Menter newydd

Mae un a fagwyd yng Ngoginan wedi newid cyfeiriad yn ddiweddar — ar ôl bod yn athro cynradd am sawl blwyddyn penderfynodd Huw Tudur a'i wraig Sarah brynu busnes gwely a brecwast ym Mhen-y-bont ar Ogwr. Gwraig o Fôn oedd yn rhedeg Gwely a brecwast Mair — ac mae'r enw wedi ei gadw. http://www.mairsbedandbreakfast.co.uk/ Mae'r busnes yn un cartrefol a Chymreig wedi ei leoli ynghanol tref Pen-y-bont ar Ogwr; croesewir cerddwyr a beicwyr; mae ei leoliad o fewn tafliad carreg i'r M4, Caerdydd ac Abertawe ac mae yno faes parcio diogel. Ceir brecwast heb ei ail; mae yno ystafell deulu a darpariaeth i fabanod ar gael a chyfleusterau i'r anabl a cheir telerau ffafriol i gyd-Gymry!!! Dymuniadau gorau i Huw a Sarah..

James Memorials
Am
GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI
A BUSNESAU
Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim
James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn (01970) 820 111

GOLCHDY LLANBADARN
CYTUNDEB GOLCHI
GWASANAETH GOLCHI
DUFET MAWR
CITS CHWARAEON
FFÔN: 01970 612 459
MOB: 07967 235 687
GERAINT JAMES

Carl Evans a'i Fab
Bryncadno
Penrhiwnewydd
Penrhyn-coch
Gwaith saer
Gwaith adeiladu
Gwaith to
820 961 / 07967 527099

Clwb Cymdeithasol Pêl-droed Penrhyn-coch
CINIO DYDD SUL
PRYDAU BAR
PARTÏON
BWYDLEN BWYTY
ADLONIANT
AR AGOR O 5:30 P.M. NOSWEITHIAU IAU A GWENER AM BRYDIAU TEULUOL

SWYDDFA'R POST
BOW STREET
NWYDDAU
MELYSION
CYLCHGRONAU
CARDIAU CYFARCH
PAPURAU DYDDIOL A'R SUL
JOHN A MARIA OWEN

LLETY PARC
Caffi a thrwydded
Bwyd amrywiol o sgon i stêc
Coffi bore – te prynhawn
Ystafelloedd gwely moethus
Lolfa ac ystafell gynhadledd
Ar agor yn ddyddiol o 7 y bore tan 10 y nos
Trwydded i gynnal priodas
Parc-y-llyn Aberystwyth
01970 636333

SIOP A SWYDDFA BOST PENRHYN-COCH
Perchennog: Lawrence Kelly
Ar agor
Llun - Sadwrn
7 y bore - 9 yr hwyr
Sul
7 y bore - 7 yr hwyr
papurau dyddiol a'r Sul
llyfrgell fideo
cardiau cyfarch
siop drwyddedig
FFÔN: 828312

DRUID INN
Goginan
Ar agor trwy'r dydd pob dydd
Bwyd ar gael bob amser
Croeso cynnes
Ffôn 880650
Tafarn y Flwyddyn CAMRA 2008
Cinio Sul a ddyfarnwyd y gorau ym Mhrydain

R.J.Edwards
Adeiladau Fferm y Cwrt
Cwrt Farm Buildings
Penrhyn-coch
Contractiwr, masnachwr gwair a gwellt.
Arbenigwr ar ailhadu
Cyflenwi a gwasgaru calch
Gwrthtaith Fibrophos a rhai organig
Ymgymymerir â phob math o waith amaethyddol am brisiau cystadleuol
Loriau a pheirianau amaethyddol i'w llogi
01970 820149
07980 687475

GWELY A BRECWAST MAIR
9 Heol Llangrallo, Pen-y-Bont ar Ogwr CF31 3AR
Croeso cynnes Cymreig mewn lleoliad delfrydol i ganolfanau siopa gorau de Cymru, Canolfan y Mileniwn, Stadiwm y Mileniwm a Cae Pêl-droed Caerdydd.
www.mairsbedandbreakfast.co.uk
e-bost : mairbandb@hotmail.com
01656 655442
07768 286303
Cysylltwch â Huw a Sarah Tudur

## Cymru'n arwain gyda chynllun unigryw i daclo llygredd dŵr pyllau mwyn

Mae gwaith arloesol wedi dechrau ddiwedd Medi i wella ansawdd dŵr mewn pwll yng Nghwmrheidol fel rhan o gynllun peilot unigryw gan Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru.

Yn hanesyddol, mae'r pwll wedi gollwng llawer iawn o sinc a metelau eraill i Afon Rheidol sy'n golygu ei bod yn methu â chyfarfod y safonau ansawdd dŵr 'da' sydd raid eu cyrraedd o dan Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yr Undeb Ewropeaidd.

Bydd metelau gwenwynig yn cael eu tynnu o ddŵr y pwll cyn cyrraedd Afon Rheidol, gan ddefnyddio dull amgylcheddol cyfeillgar nad yw'n gofyn am unrhyw ffynhonnell o ynni heblaw disgyrchiant. Bydd y system trin yn defnyddio cymysgedd o gynnyrch gwastraff, gan gynnwys cregyn cocos a chompost, i annog y prosesau biolegol a chemegol naturiol sy'n glanhau dŵr y pwll.

Cafodd dulliau tebyg eu defnyddio'n llwyddiannus i dynnu haearn o ddŵr pyllau glo, ond dyma'r tro cyntaf i'r dull yma gael ei ddefnyddio i dynnu sinc a metelau o un o"r hen byllau mwyn sydd mor niferus yng ngorllewin Cymru. Mae'r Asiantaeth yn gweithio mewn partneriaeth gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru, yr Awdurdod Glo a Phrifysgol Newcastle. Mae hefyd wedi derbyn cefnogaeth ariannol oddi



wrth yr Undeb Ewropeaidd o dan Raglen Amcan 1 a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Os bydd y cynllun peilot yn llwyddiannus, gellir ei ddefnyddio mewn lleoedd eraill yng Nghymru, yn y DU ac mewn gwledydd eraill i drin dŵr sydd wedi'i lygru gan hen byllau mwyn a hynny heb amharu fawr ddim ar yr amgylchedd. Meddai Paul Edwards, Uwch Swyddog Amgylchedd, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru: "Gall y gwaith sy'n cael ei wneud yng Nghwmrheidol fod yn newyddion da i rannau eraill o Gymru sy'n dioddef o broblemau llygredd dŵr o byllau mwyn tebyg. Bydd prosiectau arloesol fel hwn yng Nghwmrheidol yn ein helpu i gyrraedd y targedau heriol sy'n cael eu gosod gan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr."

# LLANDRE

### Merched y Wawr Genau'r-glyn

Agorwyd tymor cangen Genau'r-glyn o Ferched y Wawr ar Fedi'r 20fed. Mynegodd y Llywydd, Llinos Dafis, ei llawenydd o weld cymaint yn bresennol, ac estynnodd groeso cynnes iawn i'r wynebau newydd oedd wedi ymuno â'r aelodau. Cafwyd awr o fwyniant pur yng nghwmni rhai o gerddorion ifainc Llandre. Bu Efa a Dylan Edwards yn canu caneuon clasurol ac o sioeau cerdd i gyfeiliant eu mam Meinir; Rhun a Gwern Penri ar eu cornedau i gyfeiliant eu mam Llio; ac Iwan a Meinir Williams - y naill ar yr euphonium ar llall ar y delyn deires — gyda'u mam Brenda yn cyfeilio i Iwan. Wrth gymeradwyo safon uchel y perfformwyr, mynegodd y gynulleidfa werthfawrogiad brwd o waith y mamau hefyd. Ar ôl y gerddoriaeth cafwyd cyfle i gymdeithasu wrth fwynhau'r bwyd oedd wedi ei baratoi gan aelodau'r pwyllgor. Llinos Evans a Brenda Williams enillodd y ddwy raffl oedd wedi eu rhoi gan Elina Davies. Bydd cyfarfod nesaf y gangen ar Hydref y 18fed, pan fydd Wil Griffiths, Dyn y Mêl, yn dod aton ni i rannu ei brofiadau fel gwenynwr.

### Dyweddïad

Llongyfarchiadau i Nia a Huw, Cysgod y Gaer sydd wedi dyweddïo yn ddiweddar. Pob dymuniad da i'r ddau i'r dyfodol.

### Ymddeoliad hapus

Dymuniadau gorau i Philip St John Davies, 2 Pantydderwen, a ymddeolodd o'i swydd yn y Llyfrgell Genedlaethol ddiwedd Gorffennaf.

### Nofwraig lwyddiannus

Llongyfarchiadau i Megan Dafis, Glanceiro, ar ei llwyddiant wrth gynrychioli Clwb Nofio Aberystwyth mewn gala nofio yn Llanelli yn ddiweddar. Enillodd yr Aur am ras Broga 100 medr, Arian am front crawl 50 medr, ac Efydd am Iar-Fach-yr-Haf 50 medr.

### Treftadaeth Llandre

Cyfarfod mis nesaf ar Hydref 28. Ymweliad ag RSPB Ynys-hir.

### Menter Newydd

Pob lwc i Idwal a Debbie Jenkins sydd wedi agor canolfan chwarae i blant 'Play Planet' yn yr Hen Ysgol Dop. Braf gweld yr ysgol yn cael ei defnyddio ar ôl fod ar gau am nifer o flynyddoedd.

### Newyddion

Os oes gyda chi unrhyw newyddion neu ddigwyddiad i roi yn y Tincer a fyddech cystal ag anfon ataf ar : daiamair@pantyglyn.freeserve.co.uk

# ABER-FFRWD A CHWMRHEIDOL

### Digwyddiad

Capel Llwyn-y-groes Cwmrheidol:Cyfarfod Diolchgarwch nos Fawrth Hydref 19 am 7.00 y.h. Pregethwr gwadd: Y Parchg Eifion Roberts, y Morfa.

### Croeso

Croeso mawr i deulu newydd sydd wedi adeiladu tý a symud i mewn i Tancoed Aber-ffrwd.

### Urdd y Benywod

Dechreuwyd ar y gweithgareddau eleni eto drwy i nifer o aelodau ac ambell i ŵr dewr ymgasglu i fynd am dro o amgylch Nantyrarian. Ar ól mwynhau yr awyr iach a'r golygfeydd godidog mwynhaodd pawb gwpanaid a chlonc yn y caffi cyn troi am adref.

**CLWB CŴL**
**Penrhyn-coch**
Ar Agor Llun - Gwener
3.30 - 5.30
£6 y sesiwn . £5 ail blentyn
Bwyd a Diod Iachus yn Gynwysedig
Gofal Plant Cofrestredig

**Clwb Gwyliau**
Mae'r clwb hefyd ar agor yn ystod gwyliau'r ysgol a diwrnodau HMS
08.30 y.b. – 5.30 y.p.

£18 y diwrnod plentyn cyntaf
£16 y diwrnod ail plentyn

Sesiwn hanner diwrnod
08.30 – 1.00 y.p. neu 1.00 y.p. – 5.30 y.p.

£9 plentyn cyntaf . £8 ail plentyn

I fwcio cysylltwch â
Nicola Meredith neu Katy Nash ar
07972 315392
clwbcwl@googlemail.com
Neu cipiwch mewn i'r clwb ar ôl Ysgol

Celf a Chreft, Gemau tu mewn ag allan,
Wii a Playstation, Pwll Pelau a mwy!

**SWYDD CLERC**
**Yn eisiau mor fuan a phosibl Clerc i Cyngor Cymuned Genau'r-glyn.**
Am ragor o fanylion cysylltwch â Delor Harvey, Abel Gur, Lôn Glanfred, Llandre neu trwy ebost ar
**delor.harvey@tiscali.co.uk**

# PENRHYN-COCH

### Suliau Tachwedd

**Horeb**
7 2.30 Gweinidog — oedfa gymun
14 10.00 Gweinidog Oedfa deuluol
21 2.30 Y Parchg Peter Thomas
28 10.30 Gweinidog

**Salem**
Medi 31 10.00 Y Parchg Richard H Lewis — Cymundeb
Tachwedd
14 10am — Y Parchg J.E. Wynne Davies — Sul y Cadoediad
28 10am Y Parchg Richard H Lewis — Cymundeb

### Cinio Cymunedol Penrhyn-coch

Bydd y Clwb yn cyfarfod yn Neuadd yr Eglwys dyddiau Mercher 10 a 24 Tachwedd. Cysylltwch â Egryn Evans 828 987 am fwy o fanylion neu i fwcio eich cinio.

### Dymuniadau gorau

Dymuniadau gorau i Kara Wyn Jones, Tal-y-bont, fu'n gweithio dros yr haf yng Ngarej Ty Mawr, ar ei chwrs Rheoli Chwaraeon ym Mhrifysgol Morgannwg. Llongyfarchiadau iddi hefyd ar gael ei dewis yn gapten ar dim saethu merched Cymru

### Ail gylchu

Yn dilyn newidiadau gan Gyngor Sir Ceredigion yn y casgliadau ailgylchu dim ond blychau ar gyfer gwydr ( poteli, jariau) (cesglir gan Gyngor Ceredigion) a dillad ac esgidiau — ar gyfer Byddin yr Iachadwdwriaeth fydd yn digwydd o'r blychau ger Neuadd y Penrhyn o fis Ionawr ymlaen.
Cofiwch, fodd bynnag, fod yna fodd gadael papur newydd a chylchgronau ger Neuadd Eglwys Sant Ioan.

### Merched y Wawr

Bu ein noson agoriadol ar y 9fed o Fedi. Trosglwyddwyd yr awenau trosodd i'r swyddogion newydd. Yna croesawodd ein Llywydd newydd, sef Glenys Morgan, bawb i'r cyfarfod - yr hen aelodau a rhai newydd. Roedd yn hyfryd gweld criw da wedi ymgynnull. Yna aed ymlaen efo'r busnes arferol o fynd trwy'r ohebiaeth a ddaeth i law. Ar ôl hyn oll fe groesawodd ein Llywydd ein gwraig wadd, sef Edwina Davies, sydd wrth gwrs yn un o'r gwragedd sydd yn rhan o holl weithgaredd a aiff ymlaen yn ein hardal. Y noson hon roedd wedi dod â murlun roedd hi a'i chyd-aelodau yn nosbarth 60+ Trefeurig wedi ei wneud wedi defnyddio gwahanol ddefnyddiau. Murlun oedd yn dangos gwahanol rannau o ardal Trefeurig. Fe roddodd hanes unigol am bob rhan o'r murlun a sut oeddent wedi mynd a gosod yr holl waith at ei gilydd. Pob un wedi gwneud ei ran. Gwaith ardderchog sydd wedi rhoi Trefeurig ar y map fel pe tae. Maent wedi gwneud cardiau gyda llun o bob rhan unigol y murlun arnynt. Roedd yn noson ddiddorol dros ben. Diolchwyd i Edwina yn gynnes iawn ac yna tynnwyd y raffl fisol a chafodd pawb ymgymryd o fwffe oedd wedi ei baratoi gan yr aelodau. Cychwyn ardderchog i'r tymor.

Dydd Sadwrn y 25ain o Fedi aeth criw ohonom lawr i Cenarth, Castellnewydd Emlyn. Fe aethom i gael cinio yn Nhŷ Te Cenarth lle cafwyd croeso arbennig a bwyd blasus dros ben. Yna ar ôl y cinio aethom i ffermdy Glyneithinog lle mae Caws Cenarth yn cael ei gynhyrchu gan y teulu Adams. Pob un o'r teulu yn gwneud ei ran efo'r gwaith. Maent yn cynhyrchu deg gwahanol gaws a'r rheiny yn cael eu gwerthu dros y byd. Yn gyntaf aethom i wylio fideo oedd yn dweud holl hanes y gwaith maent yn wneud. Yna fe gawsom fynd i'r siop lle maent yn gwerthu'r caws. Cawsom yno hanes pob un o'r deg caws a'u blasu yn unigol. Yna prynwyd y gwahanol gaws gan yr aelodau. Diolchwyd iddynt am y croeso. Mae Caws Cenarth newydd ennill gwobr yn maeddu pawb dros Brydain, un arall i roi at yr holl wobrwyon maent wedi ennill ymhobman dros y blynyddoedd. Llongyfarchiadau i fusnes Caws Cenarth a phob hwyl i'r dyfodol.

### I'r coleg

Dymuniadau gorau i Sion Morris, Glan Ceulan sydd wedi mynd i Brifysgol Morgannwg ym Mhontypridd i ddilyn cawrs daearyddiaeth.

### Actor teithiol

Fe gymerodd Rhodri-Sion Evans, Pont Seilo, saib o'i waith fel technegydd yng Nghanolfan y Celfyddydau, Aberystwyth yn ddiweddar i deithio gyda Theatr Genedlaethol Ieuenctid Cymru ar daith fer yng Nghymru yn perfformio Diwrnod heb ei debyg — drama o waith myfyrwyr.



Mr a Mrs David ac Auriel Evans, Bow Street, oedd Llywyddion y Dydd Sioe Penrhyn-coch eleni Llun:Hugh Jones



Ar ddiwrnod te a mefus blynyddol Eglwys Sant Ioan, Llywydd y Dydd oedd Mrs Janet Evans, Trefaenor a Panteg. Gwelir Mrs Gwyneira Marshall yn cyflwyno blodau iddi. Llun: Hugh Jones

### Swydd newydd

Llongyfarchiadau i Sara Evans, Refail Fach, ar gael ei phenodi yn bennaeth Cynorthwyol Ysgol Cynwyd Sant, Maesteg.

### Urdd Gwragedd Sant Ioan Penrhyn-coch

Gwraig wadd mis Medi oedd Linda Howdle, sydd yn byw yn Nhŷ Dafydd, ger Brogynin. Mae'n aelod gweithgar o Gymdeithas Celf Ceredigion, a bu'n siarad a dangos ei gwaith a'i diddordeb o beintio mewn dyfrlliw ac 'acryllic'. Gwelir esiamplau o'i gwaith sydd ar werth mewn ffurf cardiau cyfarch yn y siop a garej y pentref.

Cynhelir noson 'Bingo' ar nos Wener 15 Hydref am saith o'r gloch yn Neuadd yr Eglwys, croeso cynnes i'r teulu oll.

Dymuniadau gorau am adferiad buan i Mrs Gwyneira Marshall sydd wedi derbyn llawdriniaeth ar ddechrau'r mis, oddi wrth holl aelodau eglwys Sant Ioan.

### Cymdeithas y Penrhyn

John Meredith, yn trafod ei gofiant newydd *Yr Hwn Ydwyf* oedd gŵr gwadd noson agoriadol Cymdeithas y Penrhyn eleni. Croesawyd ef yn frwd gan ein Cadeirydd newydd Dafydd

Sheppard, a braf oedd gweld Festri Horeb yn gyfforddus iawn.

Cawsom gipolwg difyr ar ei lencyndod yn y Bont a'n cyflwyno i nifer o gymeriadau lliwgar y pentre.

Soniodd am ei gysylltiadau â Llundain lle treuliai ei wyliau gyda pherthnasau yn Bermondsey cyn olrhain hanes ei yrfa fel gohebydd gyda'r BBC. Ymysg y straeon diddorol oedd noson fythgofiadwy'r Refferendwm yng Nghaerfyrddin yn 1997, a'i gyfweliad â Gwynfor Evans drannoeth y fuddugoliaeth.

Wedi 23 mlynedd o deithio Cymru benbaladr a phellach, yn ystod ei yrfa amrywiol, penderfynodd John ymddeol fis Mawrth eleni.

Dymunwn yn dda iddo, gan obeithio y caiff amser i fwynhau nawr gyda'i deulu a'i wyron!

### Eglwys Sant Ioan

Cynheli'r Cwrdd Diolchgarwch ar nos Fercher 13 Hydref am 7 o'r gloch dan arweiniad y Parchg. Ronald Williams.

### Taith Gerdded Noddedig, Eglwys Sant Ioan Penrhyn-coch

Ar y 18fed o fis Medi cynhaliwyd taith gerdded noddedig i godi arian i Eglwys Sant Ioan. Ar gychwyn y daith roedd yr haul yn tywynnu a'r awyr yn las wrth i ni adael Llanrhystud i gerdded rhan o lwybr yr arfordir i Aberaeron. Cawsom baned o goffi ar y traeth cyn ymweld â'r Eglwys yn Llansanffraid i edrych o gwmpas yr adeilad hardd gyda hanes mor diddorol. Eglwys o'r Canol Oesoedd wedi'i chysegru i'r Santes Ffraid o Iwerddon, nawddsant gweithwyr llaethdy. Cawsom bicnic ar y llwybr ger Morfa Mawr ac wrth gerdded i Aber-arth gwelsom golygfeydd da i'r de orllewin a Ceinewydd. Roedd yn diddorol i weld y trapiau pysgod gan fod y llanw yn isel, trapiau a ddefnyddwyd ganrifoedd yn ôl gan fynachod Ystrad-fflur. Ar ôl croesi y bont dros yr Afon Arth yn Aber-arth dechreuodd fwrw ond yn ffodus dim ond glaw ysgafn gawsom wrth gerdded y rhan olaf o'r daith i dref Aberaeron. Yna cawsom baned o de cyn dal y bws yn ôl i'r ceir yn Llanrhystud.

Diolchir i bawb a gefnogodd y digwyddiad a'i llwyddiant i godi dros £400, yn enwedig yr wyth cerddwr sef Norma a Glyn Collins, Margaret Lile, Elsie Morgan, Mavis a Job McGauley a'r trefnyddion Dwynwen a Chris Belsey.



## O'R GORFFENNOL

Plant ysgolion Sul Eglwysi Sant Mair, Aberystwyth, Capel Bangor, Penrhyn-coch a Llanfihangel Genau'r-glyn wedi'r gymanfa flynyddol yn Eglwys Llanfihangel Genau'r-glyn.
Llun: Hugh Jones (O'r Tincer 1990)








Mair Jenkins, Cwmbwa, ac Eirwen Hughes, Pen-cwm, yn cyflwyno siec o £300 yr un i Glan Davies ar ran Sefydliad Prydeinig y Galon a Sharon Woodcock ar ran Ffagl Gobaith — yr elw a wnaed o ginio a gynhaliwyd pnawn Sul Awst 8fed mewn marquee ar lawnt Plas Gogerddan. Yn dilyn y cinio arbennig wedi ei baratoi gan 'Bwyd Bethan' Machynlleth cadwyd adloniant gan y Tri Thenor — Crwys a Dewi Sion Evans a John Davies. Hoffem ddiolch i bawb am eucefnogaeth ac am eu cyfraniadau i wneud yr achlysur yn llwyddiannus.


RHODRI JONES
Brici a chontractiwr adeiladu
07815 121 238
Gwaith cerrig
Adeiladu o'r newydd
Estyniadau Patios
Waliau gardd
Llandre Bow Street

Eirian Reynolds, Tech. S.P.
GWASANAETHAU IECHYD A DIOGELWCH
GWASANAETHAU DIOGELWCH
AROLYGON DIOGELWCH
ASESIADAU PERYGLON
ARCHWILIADAU DAMWEINIAU
HYFFORDDIANT
GWASANAETH CYFLAWN I GADW CHI A'CH GWEITHLU YN DDIOGEL
Ffôn: 01970 820124 Symudol: 07709505741

FFENESTRI IMEJ
FFENESTRI PVCu, HEULFANNAU, DRYSAU a.y.y.b. Am y GWASANETH, PRIS a'r SAFON GORAU gan GWMNI LLEOL
Sefydledig dros 30 mlynedd
Edrychwch am y Tŷ Twt
01970 880330
Marilyn a Ifor Jones
Cofrestrwyd gyda FENSA

C. TREFOR EVANS
TREFNWR ANGLADDAU
"PLAS BRONGENAU"
LLANDRE
ABERYSTWYTH
Ffôn 820013


ytincer@googlemail.com

# BOW STREET

### Suliau Tachwedd

Capel y Garn
10 a 5
http://www.capelygarn.org/
7 Bugail  Walford Gealy
14 Melfydd George  Beti Griffiths
21 Bugail
28. M.J.Morris (yn Noddfa yn y Bore)

Noddfa
7   Uno yng Nghartref  Tregerddan am 3.30
14  10.00 Y Parchg Ifan Mason Davies  Cymun
21  10.00 Gweinidog
28 10.00 Y Parchg M. J. Morris (Y Garn yn cyd-addoli)

### Diolch

Dymuna Ron Davies, Irlwyn, Y Lon Groes, ddiolch o galon i'w deulu, ffrindiau a chymdogion am bob caredigrwydd a dderbyniodd wedi'r driniaeth lawfeddygol yn Ysbyty Bron-glais. Diolch hefyd am y llu o alwadau ffon, cardiau ac anrhegion a'r ymweliadau cyson.

### Gwellhad buan

Y mae ei llu cyfeillion a chydnabod yn Bow Street a'r cyffiniau yn anfon cofion annwyl iawn a phob gobaith am wellhad i Mrs Enid Howells, 38 Maes Ceiro, sydd ddim yn dda o gwbl ar hyn o bryd.

### Pen blwyddi

Llongyfarchiadau a phob dymuniad da i Mrs Elizabeth Lloyd Jones, 25 Maes Ceiro ar ddathlu ein phen blwydd yn 70 oed ar Hydref 6ed.. Yr oedd Mrs Jones Davies, 12 Maes Ceiro, yn dathlu ei phen blwydd yn 85 yr un diwrnod. Llongyfarchiadau mawr a phob dymuniad da iddi hithau hefyd.

### Merched y Wawr, Rhydypennau

Croesawyd pawb, gan gynnwys aelodau newydd, yn gynnes iawn gan Beryl Hughes, Pant-y-Peran, ein Llywydd am eleni.  Darllenwyd amryw ohebiaeth oedd wedi ei dderbyn gan Ann Jones, ein hysgrifennydd.  Wedyn cawsom noson o gêmau - gêmau bwrdd a bowlio.  Rwy'n siŵr i bawb fwynhau yn fawr iawn.

I orffen roedd bwffe blasus iawn wedi ei baratoi gan aelodau'r pwyllgor o dan ofal Elen Evans ac Annetta Morgan.  Enillwyd y raffl gan Janice Petche

### Ennill eto

Llongyfarchiadau i Mair Lewis, Brynawel, ar ennnill y cwpan coginio yn Sioe Rhydypennau am y pumed tro ac yn Sioe Llanbadarn Fawr am y pedwerydd tro.

### Geni gor-wyr

Llongyfarchiadau i Felicity Roberts, Bryncastell, ar enedigaeth ei gor-wyr yng Nghricieth. Ganwyd mab- Jac Ciaran Jones - i Nic a Zoe; mae Nic yn fab i Fflur ap Robert  a gan fod tad Felicity hefyd yn byw yng Nhricieth cafwyd llun pum cenhedlaeth ym mhapur bro'r ardal y Ffynnon.



Mae  Anwen Pierce, ysgrifennydd y Tincer a fu ar staff Llyfrgell Genedlaethol Cymru, wedi ymuno ag Adran Olygyddol y Cyngor Llyfrau dros gyfnod mamolaeth Karina Wyn Dafis. Mewn cyfnod hynod o brysur i'r Adran Olygyddol, wrth baratoi ar gyfer cyfnod y Nadolig, fe fydd Anwen yn gweithio ar amrywiaeth o destunau yn cynnwys nofelau, hunangofiannau a llyfrau i blant.  Fe fydd Anwen yn gweithio'n agos gyda Marian Beech Hughes, Uwch-swyddog yr Adran. Llongyfarchiadau iddi ar ennill cadair eisteddfodol arall yn ddiweddar - un Tregaron.




Dwy enillwraig ifanc yn Sioe Rhydypennau

### Y Rhyfel Mawr

Ym mis Awst bu sioe deithiol yn y Llyfrgell Genedlaethol, yn casglu hanes am y Rhyfel Mawr. Gyda'r olaf o'r milwyr a fu'n ymladd wedi marw y llynedd, mae'r cofnodion a'r atgofion yn prinhau. Felly, mae Ysgol Hanes ac Archaeoleg Prifysgol Caerdydd, dan arweiniad  Dr Gethin Mathews, yn rhedeg prosiect i gasglu atgofion, lluniau, cardiau, llythyron -  neu unrhyw femorabilia o'r Rhyfel Byd Cyntaf. Gellir gweld y casgliad - Cymry'r Rhyfel Mawr Ar-lein - ar wefan www.rhyfelmawr.com . Croeso i unrhyw un gyfrannu at y casgliad.
Dyma lun y daeth Meinir Lowry o hyd iddo ar ôl mynychu'r sioe deithiol. Yn Y Fenni  y tynnwyd y llun sy'n dangos grŵp o filwyr o'r ardal hon a enlistiodd ym 1914. Mae'r chwech sydd wedi eu henwi yn dod o Bow-Street, a phedwar o'r rheiny'n gefnderwyr i'w gilydd. Oes rhywun a all enwi'r tri arall?
Rhes ôl o'r chwith: 1. George Owen Penrhiw,  2.?,  3.?,  4. John Lewis Penrhiw (tad Gareth Lewis).
Rhes ganol: 1.?  2.David Thomas James Penrhiw (ewythr Merfyn James),  3. Griff Hughes Penrhiw.
Rhes flaen: 1. Tommy Hughes Nantyfallen,   2. Alser Lewis Pen-y-Garn (tad Trefor Lewis).
Oes rhywun a all adnabod y tri arall?





Sioe Rhydypennau

# MADOG, DEWI A CEFN-LLWYD

**Suliau Tachwedd**

**Madog 2.00**
7 Delyth Morgans
14 Melfydd George
21 Bugail
28. M.J.Morris

**Genedigaeth**

Llongyfarchiadau i Tom Ward a Nicola Jones sydd yn byw ym mwthyn Cefn Llwyd ar enedigaeth eu mab bach Ethan. Dymunwn yn dda iddynt i gyd ar ddechrau eu taith fel teulu bach.

**Arddangosfa ym Morlan**

Bydd arddangosfa o waith Ruth Jên - Peidiwch dweud wrth y diaconiaid ... - yn agor yn swyddogol ar fore Sadwrn, 13 Tachwedd, ym Morlan pan gynhelir bore coffi yno rhwng 10.00-12.00 i godi arian i Apel Pacistan. Croeso i bawb. Bydd yn rhedeg nes 22 Rhagfyr ac yn cynnwys datblygiad pellach ar ei gwaith diweddar o ledis mewn gwisgoedd Cymreig.

**Dymuniadau gorau**

Dymuniadau gorau i Rheinallt Jones, Felin Hên sydd yn astudio peirianyddiaeth amaethyddol ym Mhrifygol Harper Adams, Swydd Amwythig;

hefyd i Martha Rowlands, Talardeg ar ddechrau yn Ysgol gynradd Penrhyn-coch.

**Cydymdeimlad**

Cydymdeimlwn â Erwyd Howells, Tŷ Capel ar golli modryb yn ddiweddar, Mrs Annie Jones o Fachynlleth.

# DÔL-Y-BONT

**Dymuniadau gorau**

Dymunwn yn dda i Harriet Billingsley, Dolwar, ar gychwyn ar ei chwrs yng Ngholeg Caerdydd. Hefyd i'w brawd Jacob ar gychwyn cwrs yn y 6ed dosbarth yn Ysgol Gyfun Penweddig. Llongyfarchiadau mawr i'r ddau ar eu llwyddiant gyda'r arholiadau yn ystod yr Haf.

# Cyngor Cymuned Tirymynach

Cyfarfu'r Cyngor uchod o dan gadeiryddiaeth y Cyng. Owain Morgan yn Neuadd Rhydypennau ar nos Iau, 30 Medi. Yn ystod y cyfarfod pwysleisiodd y Cynghorydd Sir y Cyng. Paul Hinge bwysigrwydd yr eitem o Ddatgan Buddiannau Personol ym mhob cyfarfod o'r Cynghorau. Rhoddodd enghreifftiau o gynghorwyr sydd wedi eu hatal dros dro yn ddiweddar ar Gyngor Ceredigion oherwydd iddynt fethu a datgan eu diddordeb neu fuddiannau. Er ei bod weithiau yn swnio'n blentynnaidd o ddibwys, mae'r awdurdodau yn dod i lawr yn drwm ar yr esgeulustod hwn.

Mewn cyfarfod o Gyngor Ceredigion meddai'r Cynghorydd Hinge, trafodwyd a derbyniwyd adroddiad gan gwmni a fu'n edrych ar oblygiadau agor gorsaf trên yn Bow Street. Adroddwyd bod y Brifysgol (IBERS) yn barod i werthu darn o dir wrth y fynedfa i Bow Street fel maes parcio. Hynny yn golygu cyflwyno system "park and ride" gan leddfu tipyn ar y broblem traffig a pharcio yn Aberystwyth. Gall y cynllun i gyd gostio tua £1.5 miliwn i'w gwblhau pe caniateid lle i 42 o gerbydau, neu £2.13 miliwn ar gyfer 100 o gerbydau. Hynny mewn amser o doriadau enbyd!

Penderfynwyd pwrcasu dwy fainc o ddeunydd plastig i'w gosod yn y pentref, hynny o sylweddoli bod y rhai sydd eisoes gennym o'r un deunydd yn effeithiol a digost i'w cadw. Yn dilyn cyfarfod gan yr adrannau priodol y ffyrdd a'r heddlu, penderfynwyd bod boleri i'w gosod ar y fynedfa i'r pafin ar gornel y Lôn Groes i atal unrhyw barcio yno, hynny wedi bod yn achosi trafferth i gerbydau sy'n dod i mewn i 'r ffordd fawr o'r stryd.

Yn ei adroddiad misol dywedodd y Cyng. Hinge bod pethau'n symud ymlaen yn hwylus gydag uwchraddio rhan o ystâd Maesafallen. Yr oedd 26 annedd yn cytuno â'r cynllun (h.y. i dalu am y gwaith), 5 yn erbyn a 5 heb ateb i'r cais. Bydd arwyddion priodol yn cael eu gosod ar y ffordd i mewn i sgwâr Llangorwen er mwyn arafu cyflymdra cerbydau sydd ar hyn o bryd yn achosi pryder i'r trigolion. Gall fod yn aeaf caled ar fodurwyr os bydd y tywydd yn wael yn ardaloedd gwledig y gymuned. Ychydig iawn o halen a thywod a ddarperir i rai o'r ffyrdd, ac ni chyfrifir ffyrdd Dosbarth B yn ffyrdd blaenoriaeth. Mae Ceredigion yn ceisio yn y dyfodol agos gosod y cyfrifoldebau ar y Cynghorau Cymuned i ariannu gwaith fel hyn a hynny drwy orchymyn i'r Cyngor Cymuned i godi trethi. Hyn ar ben y dreth cyngor. Rhoddodd y Cyng. Hinge hefyd adroddiad o gyfarfod a fu'n trafod y ddogfen ar Gynllun Datblygu Lleol. Ar hyn o bryd mae llawer o ddatblygiadau yn yr ardal wedi eu hatal oherwydd problemau gyda Dŵr Cymru e.e. diffygion carthffosiaeth. Rhyw gant o dai yr awgryma'r adroddiad i Bow Street dros gyfnod o 15 mlynedd.

CYNLLUNIO. Dyma'r ceisiadau sydd eisoes wedi bod ger bron, ac wedi eu cymeradwyo gan Geredigion. 1. Gosod arwydd dau wynebol ger Siop Spar, Bow Street. 2. Codi garej a sied yn Maelgwyn, Bow Street. 3. Troi adeiladau amaethyddol yn dair uned wyliau, codi adeilad cyfleusterau un llawr a chreu mynedfa newydd a gwaith trin carthffosiaeth yn Bryngwyncanol, Dolau. 4. Newidiadau yn nhalcen 1 Blaenddol, Bow Street. 5. Codi ystafell haul yn Llys Hedd, Bow Street. 6. Codi arwydd yn Pendre, Pen-y-garn.

CEISIADAU NEWYDD. 1. Datblygiad anheddol i gynnwys ffordd a gwaith cysylltiedig (6 annedd) ar dir ger Clos Corwen, Llangorwen. Gan fod nifer o'r tai i fod yn dai fforddiadwy a hynny ynghanol tai safonol eu hadeiladwaith, teimlai'r Cyngor y byddai'r datblygiad yn amharu ar gymeriad y safle presennol a chytunent gyda'r gwrthwynebwyr lleol. Yma eto mae problem Dŵr Cymru yn amlwg. 2. Codi dau annedd ar dir The Orchard (hen faes parcio y Black Lion). Gan fod y mynediad yn hollol anaddas penderfynwyd gwrthwynebu'r cais.

Ymysg y gohebiaethau yr oedd llythyr oddi wrth Cyfreithwyr Riverside Cottage, Llangorwen yn gofyn am ganiatâd i fynd dros dir y Cyngor at yr annedd. Yr oedd caniatâd wedi ei roi flynyddoedd yn ôl, rhywbeth nad oedd ei angen yn y lle cyntaf! Mr Lyn Cadwaladr fydd Prif Weithredwr Un Llais Cymru, ac enwyd y Clerc i fod ar Bwyllgor trafod gyda SSE Renewables, Fferm Wynt Nant-y-Moch. Bydd Cyngor Sir Ceredigion yn cynnal Cyfarfod Ymgynghorol yn Rhydypennau ar 2 Tachwedd.

Adroddodd y Cyng. Dewi Evans ei fod ef a'r Cyng. Rowland Rees wedi bod yn glanhau gwely nant Nant Afallen o'r Lôn Groes i lawr i waelod Cae Siôn (Gaerwen). Dywedodd hefyd bod Mr Hefin Williams wedi cytuno i lanhau a chlirio tyfiant sydd o gwmpas y meinciau ger Capel Noddfa.

Telir bil Neuadd Rhydypennau am logi'r toiledau, sef £578.50. Bydd y cyfarfod nesaf ar 28 Hydref.

# O'R CYNULLIAD

Wedi haf prysur iawn oedd yn cynnwys ymweld â nifer o sioeau lleol, fe gyrhaeddodd mis Medi yn syndod o gyflym. Wrth gwrs, dyma fis cynhadledd fawr y Blaid ac eleni fe'i cafwyd yng Nghanolfan y Celfyddydau yn Aberystwyth. Daeth torf dda at ei gilydd drwy gydol y tridiau i glywed sawl araith a thrafod pynciau mawr y dydd, ac rwy'n edrych ymlaen at gael y gynhadledd yn ôl i Geredigion eto yn y dyfodol..

Yn ogystal â'r Gynhadledd, fe fues mewn nifer o ddigwyddiadau ar hyd a lled y sir, o agoriad arddangosfa gelf yn Amgueddfa Aberystwyth i agor peiriant newydd cwmni Teifi Concrete yn Llanwnnen.

Yn benodol, fe fynychais gyfarfod o dra bwys i drigolion Aberteifi. Wedi misoedd o drafod a chynllunio, mae criw lleol wedi dod ynghyd i brynu cyfrannau mewn cwmni cydweithredol er mwyn datblygu safle Pwllhai ar gyfer y gymuned. Y bwriad y darparu maes parcio cyfleus yng nghanol y dref ynghyd a nifer o siopau yn gwerthu cynnyrch lleol. Llongyfarchiadau iddynt, ac rwy'n falch o glywed bod manylion terfynol y cytundebau yn barod a'r ddwy ochr ar fin eu cyfnewid.



Digwyddiad pwysig arall ym mis Medi yw dechrau'r flwyddyn academaidd yn ein colegau. Mae cannoedd o fyfyrwyr newydd eisoes wedi cyrraedd ein sefydliadau yn Aberystwyth a Llambed, a hoffwn estyn croeso cynnes iddynt i'r ardal. Yn yr un modd, hoffwn ddymuno'n dda i'r rheiny fydd yn gadael Ceredigion i fynd i astudio mewn prifysgol y tu allan i'r sir.

Yn olaf, fe gafwyd cyhoeddiad pwysig yn ddiweddar ynghylch dyddiad posib ar gyfer y Refferendwm i symleiddio'r broses o ddeddfu yn y Cynulliad. Mae Llywodraeth y Cynulliad wedi cytuno mai ar y 3ydd o Fawrth 2011 y dylid cynnal y bleidlais honno, ac mae disgwyl i Ysgrifennydd Gwladol Cymru i ystyried y cynnig hwn yn awr. Rhwng y Refferendwm ac Etholiadau'r Cynulliad, fe fydd 2011 yn sicr y flwyddyn wleidyddol brysur iawn yng Nghymru!

*Elin Jones AC*

## www.trefeurig.org

Rhai ystadegau diddorol:

Rhwng 1 Mai 2008 a 7 Hydref 2010 bu 8,102 o bobl yn edrych ar 62,855 o dudalennau.

Pwy sydd â diddordeb yn ardal Trefeurig? Nid pobl leol yn unig. Ymwelwyd â'r safle gan 7,404 o'r Deyrnas Unedig ond hefyd 196 o'r Unol Daleithiau; 93 o'r Almaen; 66 o Awstralia; 61 o Ffrainc; 28 o Canada; 23 o'r Pilipinas; 22 o Sbaen; 17 o'r Ariannin; yn ogystal ag un o Dde Korea; ag un o Iran!

Y tudalennau mwyaf poblogaidd yw Lluniau Hugh Jones (2,038 o ymweliadau) a Lluniau Agnes Morgan (1,817). Hefyd mae'r tudalennau canlynol yn boblogaidd: Y Tincer (1,606); Cymdeithasau (1,597); Awduron (1,343); Horeb (1,104); Newyddion (1,059); Hanes (896).

Y diwrnod prysuraf yn hanes y wefan oedd 26 Ebrill 2010 – trannoeth Eisteddfod y Penrhyn – pan ymwelodd 42 o bobl â'r safle.

Gredwch chi hyn?
Treuliodd rhywun o Galway (Iwerddon) chwarter awr yn edrych ar 68 o dudalennau'r safle ym mis Medi 2009.

Mae rhywun sy'n byw ym Mharis yn ymweld â'r safle yn fisol ers 2008.

Mae 16 wedi cysylltu trwy'r iPhone; 9 trwy'r iPod a 2 trwy'r iPad.

Mae 5 y cant o ffyddloniaid wedi ymweld â'r safle mwy na 200 o weithiau.

Cyfrannwch eich storïau a'ch lluniau heddiw.
Anfonwch at: golygydd@trefeurig.org




newyddion etc. i / news etc. to:
golygydd@trefeurig.org

William Howells,
Rhyd-y-gof, Penrhyn-coch,
Aberystwyth SY23 3EQ

C.J.Belsey Cyf
Chris Belsey F.R.I.C.S.
Syrfewr Siartredig Adeiladau
RICS
• Arolygon Adeiladau
• Cynllunio adeiladau newydd.
• Cynllunio estyniadau i adeiladau preswyl a Masnachol.
• Ceisiadau Cynllunio a Rheolydd Adeiladau.
Ffon: 01970 820166

ytincer@googlemail.com

ANIFEILIAID TEW
eu hangen i'w lladd mewn lladd-dy lleol
Cysylltwch â Tegwyn Lewis
Ffôn (01970) 880627



MARK HUGHES
CEIROPODYDD A PHODIATRYDD COFRESTREDIG
Meddygfa Ystwyth
Gofal ewinedd arferol
Ewinedd yn tyfu i'r byw
Cyrn a chroen caled. Verrucae
Gofal traed i rai â chlefyd siwgr
Poenau yn y traed a'r coesau
GWASANAETH YMWELD Â'R CARTREF
01970 615938

## COLOFNYDD Y MIS



**Manon Wyn James**

Lle bynnag ewch chi yn y byd mae pobol yn hoff o drafod y tywydd. Rwy'n byw yn Nhregaron ers dros flwyddyn bellach a does dim dwywaith fod dadansoddi'r tywydd yn ffordd o ddechrau pob sgwrs yma. Mae'n bwnc y mae gan bawb ddiddordeb ynddi.

Mae'n syndod fel gall y tywydd hawlio penawdau'r newyddion am beth amser. Bu'r eira mawr ar ddechrau'r flwyddyn yn bwnc trafod ar raglenni fel *Taro'r Post* am ddyddiau lawer, a'r penderfyniad a ddylid cau ysgolion neu beidio yn un anodd i'r prifathrawon.

Mae'r tywydd wedi cael sylw mawr y mis hwn hefyd, wrth i Gymru groesawu y Cwpan Ryder. Y cwestiwn mawr yw, a ydy'r glaw wedi difetha'r bencampwriaeth? Does dim amheuaeth fod y tywydd garw wedi peri siom i sawl un o'r trefnwyr yn enwedig ar ôl bron i ddeng mlynedd o baratoi. Yn hytrach na chanolbwyntio ar y chwarae, mae newyddiadurwyr ar draws y byd wedi bod yn cyhoeddi straeon am y glaw mawr a phenawdau fel *'US stars forced to buy new waterproofts after torrential rain' a 'Welsh Washout'.* Dydy'r lluniau a'r delweddau o'r tywydd garw, pyllau dŵr a'r awyr llwyd ddim wedi helpu at greu y ddelwedd berffaith o Gymru. Gobeithio fod y croeso Cymreig a'r profiad o ymweld â'r cwrs â'r wlad wedi bod yn ddigon i greu argraff.

Mae pobl yn dal i ganmol Eisteddfod yr Urdd eleni, ac rwy'n siwr y bydd pobl Ceredigion yn siarad gyda balchder am Eisteddfod 2010 am flynyddoedd i ddod. Yn sicr roedd hi'n Eisteddfod i'w chofio, ac fe fu'r haul braf yn goron ar y cyfan. Rwy'n gweithio i'r Urdd ers sawl blwyddyn bellach ac wedi dysgu a gweld sut mae'r tywydd yn gallu gwneud cymaint o wahaniaeth i ddigwyddiadau awyr agored mawr. Mae'r Urdd yn gorfod ystyried sut gall y tywydd effeithio rhediad y Gwersylloedd, cystadlaethau chwaraeon, teithiau a thripiau yn ogystal â'r Eisteddfod.


Er fod elfen o lwc siwr o fod wedi sicrhau wythnos o haul braf ddiwedd mis Mai yn Llanerchaeron, rwy'n gwbl argyhoeddedig fod llwyddiant yr Eisteddfod wedi bod yn fwy na lwc a thywydd da. Bu pobol Ceredigion yn gweithio'n galed i godi arian am sawl blwyddyn gan godi mwy, hyd yn oed na'r targed a osodwyd. Yr hyn oedd yn arbennig oedd fod pwyllgorau apêl ar hyd y Sir wedi perchnogi'r Eisteddfod o'r dechrau ac yn teimlo'n rhan ohoni ac eisiau iddi lwyddo. Roedd safle godidog Llanerchaeron hefyd yn cynnig rhywbeth newydd, a'r sioeau cynradd ac uwchradd yn golygu fod plant a phobl ifanc y sir wedi cael profiadau penigamp.

Yn sicr roedd yr Eisteddfod hon gyda'r goreuon, diolch i frwdfrydedd pobol, trefnu da, safle arbennig ... heb anghofio wythnos gyfan o haul ac awyr las wrth gwrs!

Y mis nesaf: Rhydian Mason

## Adolygiad

Sŵ Gerallt Jones. *Dwylo ar y piano 3: Dawnsiau Celtaidd.* Y Lolfa 58t. £6.95




Casgliad newydd sbon o alawon dawns o'r gwledydd Celtaidd gan Sŵ Gerallt Jones yw Dwylo ar y Piano 3. Mae'n cynnwys alawon o'r chwe gwlad Geltaidd — Cymru, Llydaw, Iwerddon, yr Alban, Ynys Manaw a Chernyw — ynghyd â rhai o Galisia, yng ngogledd orllewin Sbaen. Er nad oes gan Galisia iaith Geltaidd sydd wedi goroesi, mae'n un o nifer o ranbarthau yng ngogledd Iberia sy'n cael eu cysylltu â'r byd Celtaidd.

Ceir amrywiaeth dda o wahanol fathau o alawon ar gyfer pob gwlad. O'r pump o Gymru, er enghraifft, mae Pibddawns Mr. Jones yn fersiwn o alaw ddawns gyfarwydd, Tŷ a Gardd yn gân swynol a Polca Cefn Coed yn cynnig rhythm bywiog a gwahanol. I ddilyn hynny ceir Walts y Glöwr, ac i orffen, alaw fywiog yn y cywair lleddf, Gyrru'r Byd o 'Mlaen. Mae dechrau gydag alawon cyfarwydd yn codi awydd arnoch i roi cynnig ar rai mwy dieithr.

Roedd chwarae Gafotten ar Menez yn dod ag atgofion melys o glywed y biniou a'r bombarde yn canu alawon tebyg yn Saint Brieuc yn Llydaw flynyddoedd yn ôl. Mae'n hyfryd gweld alawon fel hyn ar bapur a chyda threfniant ar gyfer y piano. Yn aml iawn, dim ond yr alaw a welir mewn print, gyda llythrennau ar gyfer cordiau efallai, ond gallai trefniant fel hwn ysgogi rhywun i fentro ac arbrofi gydag alawon eraill.

Mae'r llyfr yn cynnwys adrannau cryno ar ddeall amsernodau a sut i ddelio â gwahanol rythmau ac yn sôn am faterion technegol fel defnyddio'r pedal. Mae Sŵ Gerallt Jones hefyd yn tynnu sylw at ffurf yr alawon a'u harmonïau ac yn rhoi pob math o gyngor defnyddiol ar sut i'w canu.

Mae'r cyferbyniad rhwng yr alawon yn golygu bod rhywbeth at ddant pawb a gellir dysgu llawer o'u chwarae. Yn y trefniant hyfryd o 'Ddawns y Blodau' o Gernyw, er enghraifft, ceir addurniadau i greu effeithiau diddorol, ynghyd â chyfarwyddiadau ar gyfer eu perfformio.

Alawon o Galisia yw'r olaf yn y llyfr. Maent yn fywiog ac yn wahanol ac yn codi awydd arnoch i weld y dawnsfeydd a dysgu mwy am Galisia.

Mae'n llyfr yn hawdd ei ddarllen ac yn glir drwyddo ond mae'n gallu bod yn anodd gwneud iddo aros ar agor ar y piano. Efallai y byddai rhwymiad 'sbiral', sy'n agor nôl yn fflat, yn syniad da.

Dyma drydydd llyfr y gyfres Dwylo ar y Piano gan Sŵ Gerallt Jones. Mae ei phrofiad a'i brwdfrydedd yn amlwg ac mae'r llyfr yn debygol o ysgogi pobl o bob oed sy'n canu'r piano i chwilio am ragor o alawon a thraddodiadau'r gwledydd Celtaidd a chyfandirol.

Ond gair o rybudd: ar ôl i chi ddechrau eu canu, mae'n bosib na fyddwch yn gallu anghofio rhai o'r alawon hyn!!

Brenda Williams



# YSGOL CRAIG YR WYLFA

## Gwasanaeth arbennig

Cafwyd gwasanaeth arbennig i gofio am Caitlin fach. Collodd Caitlin y frwydr yn erbyn cancr ym mis Awst. Cyneuwyd cannwyll fach binc er cof amdani.Ysgrifennodd pob plentyn neges fach i Caitlin a chlymwyd y rhain wrth falwnau pinc a'u rhyddhau i'r awyr. Bu plant y babanod wrthi yn brysur yn gwneud llyfr cof ac mae'r llyfr yn yr ysgol i bawb gael ei weld.

## Ymweliad i Ynys-hir

Bu'r ysgol i gyd yn Ynys-hir ar ddechrau y tymor. Roedd y babanod wedi bod yn brysur yn edrych am drychfilod ar dir ac yn y dŵr. Roedd y plant iau wedi cael cyfle i ymchwilio i gynefinoedd gwahanol anifeiliaid a thrychfilod. Cawsant ddiwrnod arbennig ac mae pawb yn edrych ymlaen i ddychwelyd yno.

## P.C. Gwyndaf Lloyd

Cafodd P.C Gwyndaf Lloyd ddiwrnod prysur yn yr ysgol yn ddiweddar. Bu ym mhob dosbarth yn rhoi cyngor ac adborth ar wahanol agweddau o fywyd. Bu y babanod yn trafod pryd i ddefnyddio 999 a chafwyd plant 3 a 4 drafodaeth ar gyfaill neu elyn. Alcohol oedd thema y drafodaeth ym mlynyddoedd 5 a 6. Roedd y plant i gyd wedi ymateb yn dda ac yn edrych ymlaen at ei ymweliad nesaf.

## Ysmygu/Golchu dwylo

Daeth Sioned Burrell, nyrs yr ysgol i mewn i siarad gyda plant cyfnod allweddol 2 am beryglon ysmygu. Roedd hi'n wers ddiddorol iawn a bu'r pot o dar oedd yn mynd o gwmpas y dosbarth yn effeithiol iawn ar ddangos effaith ysmygu. Cafodd y disgyblion y cyfle i fod yn aelodau o glwb bygiau baco sef clwb sy'n annog bywyd iach. Bu Sioned y nyrs yn gwneud gwers ar sut i olchi dwylo yn gywir gyda disgyblion y babanod. Roedd y bocs golau yn effeithiol iawn ar ddangos ymdrechion y plant ac ar yr un pryd yn hwyluso'r dasg o olchi dwylo.

## Tim pêl droed Yr Urdd

Aeth aelodau o glwb Yr Urdd sef Tuen Cullen, Hannah Davies, Rhydian Davies, Jonah Williamson-Evans, Thomas Borrington a Andrew Fielding i dwrnament pêl droed yn ddiweddar. Cawsant hwyl wrth chwarae yn erbyn ysgolion cyfagos, ac roeddent yn hapus iawn gyda'r sgôr terfynnol.

## Clwb Coginio

Mae nifer helaeth o blant wedi penderfynu ymuno â chlwb coginio yr ysgol y tymor yma. Mae y plant wedi bod yn brysur iawn yn penderfynu beth i goginio ac wedi gwneud bara a chacennau bach (neis iawn) yn barod.

## Tacluso yr ardd

Cafwyd diwrnod i dacluso'r ysgol ar ddydd Sadwrn 11eg o Fedi. Tacluswyd rhan o'r ardd a chwynwyd o gwmpas yr ysgol. Diolch yn fawr i bawb a wnaeth helpu a chefnogi yr ysgol, yr ydym yn gwerthfawrogi eich ymdrechion.

## Caban newydd Mudiad Ysgolion Meithrin

Hyfryd yw gweld y plant Meithrin wedi ymgartrefu yn y caban newydd. Mae ganddynt dipyn mwy o le a thoiledau cyfleus. Gobeithio y byddant yn hapus iawn yno.

## Croeso

Ymunodd Krystabel King a Rachel Swift (myfyrwyr Coleg Ceredigion) â'r ysgol ar ddechrau'r tymor. Byddant yn cyd-weithio o fewn y dosbarthiadau trwy'r tymor. Dymunwn bob llwyddiant iddynt wrth iddynt ddilyn eu cyrsiau.

## Priodasau hapus

Llongyfarchiadau enfawr i Miss Lynwen Herbert a Miss Natalie Edwards wrth iddynt briodi yn ystod gwyliau'r haf. Dymunwn yn dda i Lynwen a Dylan ac i Natalie a Barry ar eu bywydau priodasol.



Keiran yn casglu trychfilod



Sioned, nyrs yr ysgol yn trafod gyda'r plant iau




Cannwyll Caitlin



P.C. Gwyndaf Lloyd yn siarad gyda'r babanod

# YSGOL PENRHYN-COCH

## Dillad ein hunain

Ar ddiwedd y tymor diwethaf, cyflwynwyd siec i Tirion Lewis o £227. Daeth atom gyda Dilwyn, ei thad, i gasglu'r siec. Codwyd y swm trwy gynnal diwrnod "dim gwisg ysgol" a stondin gacennau i'r rhieni a ffrindiau'r ysgol. Daeth Capten Colin Jones i lawr i sgwrsio gyda'r disgyblion am ei daith i fyny'r Wyddfa.

## Taith Gerdded

Ar ddydd Gwener y 25ain o Fehefin, aeth nifer o rieni'r ysgol ar daith gerdded noddedig er budd yr ysgol. Llwyddodd y criw i gerdded o Aberaeron i Aberystwyth ar hyd llwybr yr arfordir. Casglwyd noddwyr a chodwyd swm arbennig iawn. Diolch iddynt am eu cefnogaeth ddi-flino i'r ysgol.

## Mabolgampau

Cynhaliwyd ein mabolgampau ar ddiwrnod braf ym mis Mehefin. Cynhaliwyd nifer o'r cystadlaethau maes cyn y diwrnod o fewn y gwersi addysgu gorfforol. Cafwyd prynhawn arbennig o gystadlu ar ddiwrnod y mabolgampau ac yng nghanol yr holl gystadlu brwd, cafwyd nifer o hwyl a sbri. Croesawyd rhai o aelodau'r Ysgol Feithrin i lawr i gymryd rhan. Ar ddiwedd y prynhawn, Stewi fu'n fuddugol a chyflwynwyd y darian i gapteiniaid y tîm buddugol gan Mr Hill.

## Dodgeball

Ym mis Gorffennaf, trefnwyd noson o gystadlaethau Dodgeball i godi arian i'r Ysgol ac Ymchwil y Galon. Er mai nifer fach o dîmau a ddaeth i gefnogi, cafwyd llawer iawn o hwyl a sbri. Gwelwyd gwisgoedd anhygoel gan rai tîmau. Cafwyd llawer o hwyl gyda'r enillwyr yn derbyn tariannau. Rydym yn gobeithio trefnu noson debyg yn y dyfodol.

Ar ôl y Dodgeball, cafwyd noson yn y Clwb Pêl-droed gyda raffl, ocsiwn ac Aber Jazz yn chwarae. Llwyddwyd i godi £550 i'r ysgol a £130 i Ymchwil y galon.

TAFARN TYNLLIDIART
Ty Bwyta a Bar
Prydau neilltuol y dydd
Prydau pysgod arbennig
Cinio Dydd Sul
Bwydlen lawn hanner dydd
neu yn yr hwyr
CROESO
(mantais i archebu o flaen llaw)
CAPEL BANGOR
01970 880 248

## Gardd yr ysgol

Ers gwyliau'r Pasg, bu'r ysgol wrthi'n datblygu ardal allanol yr ysgol er mwyn creu gardd. Cydlwynwyd y gaith gan y Cyngor Eco o dan oruchwyliaeth Miss Owens. Cafwyd nawdd gan nifer o gwmnïau lleol ynghyd â chymorth rhieni talentog i osod y ffens a'r cerrig. Diolch yn fawr iawn i bawb a fu ynghlwm gyda'r gwaith. Ar brynhawn braf ym mis Gorffennaf, daeth Mr Eifion Evans, Y Cyfarwyddwr Addysg, draw i'r ysgol i agor yr ardd yn swyddogol. Diolch iddo am ei barodrwydd ac i bawb a gyfrannodd at y prosiect.

## Gwasanaeth Ffarwelio

Ar ddiwedd y tymor cynhaliwyd gwasanaeth arbennig i ffarwelio a Mr Hill. Daeth criw dda o rieni at ei gilydd a chafwyd prynhawn go wahanol. Treuliwyd nifer o'r dyddiau blaenorol yn paratoi fideo arbennig o atgofion plant a'r staff o gyfnod Mr Hill yn yr ysgol.

## Trip Ysgol

Teithiodd holl ddisgyblion yr ysgol ar ein trip blynyddol i lawr i Ganolfan Ogofau Cymru, Dan yr Ogof. Treuliwyd diwrnod yno yn ymweld â'r ogofau. Aeth pob disgybl o dan ddaear a gwelwyd llawer o hanes yr ogofau. Cafwyd cyfle i fwynhau y parc deinosoriaid gerllaw ynghyd â'r fferm ceffylau gwedd. Er i'r tywydd droi'n wlyb erbyn y prynhawn cafwyd llawer iawn o hwyl a sbri.

## Croeso i Greg

Ar ddechrau'r tymor newydd ym mis Medi, croesawyd athro newydd atom. Apwyntiwyd Mr Greg Vearey-Roberts fel athro dosbarth Blynyddoedd 3 a 4. Mae Mr Roberts yn adnabyddus drwy'r ardal fel unawdydd ac arweinydd Cor Ger-y-lli. Croesawn ef yma atom.

Llongyfarchiadau iddo hefyd ar ei lwyddiant yn Eisteddfod Genedlaethol Blaenau Gwent.

## Diwrnod tacluso

Fel rhan o waith Cymru Daclus, aeth yr holl ddisgyblion ynghyd â rhai o rieni'r ysgol ati i dacluso o amgylch y pentref. Treuliwyd y bore yn tacluso ac yn codi sbwriel o'r ysgol hyd Swyddfa'r Post, y parc ac i fyny i'r neuadd. Llwyddwyd i godi bagiau di-ri o sbwriel. Diolch i bawb a ddaeth i helpu'r disgyblion.


Disgyblion yr ysgol wrthi'n ymarfer rygbi


Cwmni Arad Goch yn yr ysgol

## Staff Newydd

Mae staff newydd wedi cychwyn yn yr ysgol ers dechrau'r tymor. Gadawodd Miss Eleri Edwards ei swydd fel Cynorthwy-ydd Cynnal Dysgu i ymgymryd â swydd yn Ysbyty Bron-glais. Dymunwn pob hwyl iddi yn ei swydd newydd. Yn ei lle, apwyntiwyd Miss Gwenelen Hughes o Lanfarian. Croeso iddi i'r ysgol.

Rydym hefyd yn croesawu Elen Lionel atom o Goleg Y Drindod, Caerfyrddin sydd yn ymuno â ni am gyfnod o ymarfer dysgu.

# YSGOL RHYDYPENNAU

## Castell Henllys

Fel rhan o waith hanes blwyddyn 5 a 6; ymwelwyd â Chastell Henllys yn ddiweddar. Bryngaer Geltaidd yw Castell Henllys yng Ngogledd Penfro. Teithiwyd nôl dros ddwy fil tri chant o flynyddoedd er mwyn cael blas ar fywyd a thraddodiadau'r cyfnod arbennig hwn. Yn ystod yr ymweliad cafodd y plant gyfle i fwynhau amryw o weithgareddau yn null traddodiadol Y Celtiaid o adeiladu tai i wneud bara. Roedd hyn yn gyfle i ddianc o'r ystafell ddosbarth a phrofi hanes ac empathi'r cyfnod. Cafwyd ymweliad pleserus ac addysgidol tu hwnt.

## Arad Goch

Ar yr 21ain o Fedi cafodd plant Y Cyfnod Sylfaen gyfle i fwynhau perfformiad arbennig gan gwmni theatr Arad Goch yn neuadd yr ysgol. Enw'r cynhyrchiad oedd 'O Gam i Gam' Math newydd o berfformiad oedd ganddynt y tro hwn; perfformiodd y criw tu allan a thu mewn i adeilad yr ysgol. Yn ychwanegol i hyn, cafodd y plant gyfle i ryngweithio gyda'r cymeriadau a chyfrannu i'r sioe. Defnyddiwyd elfennau cerddorol a gweledol er mwyn bwydo'r dychymyg er mwyn ysbrydoli gwaith creadigol a ieithyddol.

## 'Bingo'

Ar yr 22ain o Fedi, er mwyn croesawu'r tymor newydd, trefnodd Y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon noson 'Bingo' yn neuadd yr ysgol. Cafwyd noson gymdeithasol dda iawn gyda llwyth o wobrau da a chacennau blasus. Codwyd £155.00 yn ystod y difyrrwch.

Dwy noson yn ddiweddarach, trefnodd Y Gymdeithas sesiwn o bacio bagiau yn archfarchnad Morrisons er mwyn codi rhagor o arian i goffrau'r ysgol. Codwyd £273 mewn 3 awr. Dechreuad campus i'r tymor.

## Gwaith elusennol

Trefnodd Blwyddyn 2 stondin gacennau er mwyn codi arian tuag at y bobol ym Mhacistan a fu'n dioddef yn sgîl y llifogydd ofnadwy yno yn ddiweddar. Casglwyd £80 yn ystod amser chwarae bore. Da iawn wir!

## Adran yr Urdd

Mae Adran yr Urdd wedi ail ddechrau bellach. Treuliwyd y noson gyntaf yn mwynhau sesiwn dan ofal y Prifathro a'r Dirprwy. Mi fydd y gweithgareddau difyr yn parhau yn ystod y flwyddyn.

Am fwy o wybodaeth a llwyth o luniau: http://www.rhydypennau.ceredigion.sch.uk



Arad Goch yn perfformio yn yr ysgol



Mwynhau Noson 'Bingo'.



Ymweliad plant blwyddyn 5 a 6 i Gastell Henllys.



Codi arian ar gyfer pobl Pacistan.

Blodau i bob achlysur

**Blodau'r Bedol**

Priodasau . Pen blwydd .
Genedigaeth . Angladdau .
Blodau i Eglwysi a
Chapeli neu unrhyw achlysur

**Donald Morgan**
Hen Efail, Llanrhystud SY23 5AB
Ffôn 01974 202233
Danfon am ddim o fewn dalgylch y Tincer

**CIGYDD BOW STREET**

Eich cigydd lleol

Pen-y-garn
Ffôn 828 447
Llun: 9-4.30
Maw-Sad 8.00-5.30
Gwerthir ein cynnyrch mewn rhai siopau lleol

**TACSI EDDIE**

7 DIWRNOD YR WYTHNOS
Ffôn 828 642
E D Evans, Gwawrfryn,
Penrhyn-coch

pennau craft and coffee shop
Bow Street, ger Aberystwyth, Dyfed
Ffôn (01970) 820050

Coffi Boreuol
Byrbrydau Poeth neu Oer
Cinio
Te Prynhawn
Crefftau ac Anrhegion

Ar agor saith niwrnod yr wythnos
Mehefin, Gorffennaf, Awst a Medi
(fel arall, ar gau ar ddydd Llun)

siop grefft a choffi pennau

# YSGOL PEN-LLWYN

## Ymweliad Lucia o Lesotho

Ar Fedi 23 2010 daeth Lucia, o Lesotho (gwlad fach yng nghanol De Affrica) i ymweld a'r plant yma yn Ysgol Pen-llwyn. Taflodd pawb ei gwestiynau ati a fe ddysgon ni lawer am ei gwlad a sut mae'n nhw'n byw. Dywedodd hi bod hi'n dysgu mewn ysgol gynradd yn Lesotho a dangosodd hi luniau o'r faner a esbonio symbol yr het arni a pan ddywedodd hi enw'r prif weinidog doedd neb yn deall beth oedd hi'n ddweud!
Daeth Miss H. Davies o Lanfihangel-y-Creuddyn hefyd i helpu Lucia i ddeall y cwestiynau yn well. Cafodd pawb amser da efo Lucia.
Jo Jones

## Cystadleuaeth Tarian y Waun

Cynhaliwyd y gystadleuaeth Tarian y Waun ar feysydd Blaendolau. Dechreuon ni drwy chwarae yn erbyn Piod Bow Street. Roedden ni'n chwarae am chwarter awr. Aeth Ysgol Pen-llwyn i'r gêm cyn derfynol a chwarae Sêr Aur. Roedd y gêm yn agos. Ond enillodd Ysgol Pen-llwyn 4-2 yn erbyn Sêr Aur. Aethom i'r rownd derfynol yn erbyn Aber Selects. A collon ni yn y gêm yn erbyn Aber Selects 6-4. Ar ôl hynny fe gafon ni darian un yr un. Ond cafodd Aber Selects gwpan a tharian, un yr un.
gan Steffan, Iestyn a Keiran

## Pump bob ochor

Cychwynodd Tîm pêl-droed Pen-llwyn am naw o'r gloch yng nghar Dafydd y rheolwr. Cyrhaeddon ni y Ganolfan Hamdden ble roeddem yn chwarae. Arhoson ni tu allan yn chwarae tan cyrhaeddodd y tîmau eraill. Ar ôl dipyn roedd hi'n amser chwarae. Y tîm cyntaf oeddem yn chwarae yn eu herbyn oedd Ysgol Taliesin. Ar ôl y gêm gyffrous enillon ni 2-0 diolch i'n blaenwr Gethin Ap Dafydd. Ar ôl y gêm gyntaf roedden ni ar dân am ennill bob gêm yn y grŵp. Wedyn daeth y semi-ffeinal ond doedd y gêm yna ddim mor hawdd. Ond fe ddaethon ni trwy'r gêm yn ennill 3-2 yn erbyn Llangwyryfon. Wedyn daeth y gêm fawr, y gêm derfynol. Ond roedd hi llawer haws na phob gêm arall. Roeddwn ni yn chwarae yn erbyn Llanfihangel-y-Creuddyn. Y sgôr oedd 6-0 a roedd Pen-llwyn wedi ennill! Diolch i Lanfihangel am gêm mor dda.
Jo a Tomos

## Perfformiad Arad Goch 'O Gam i Gam'

Aethon ni i weld perfformiad Arad Goch yn Ysgol Rhydypennau, Bow Street. Daeth dyn i gwrdd â ni wrth y giât. Roedd y dyn yn chwilio am gerrig. Doedd e heb weld ni. Helpon ni'r dyn i gasglu cerrig arbennig. Roedd rhaid dewis cerrig arbennig iawn i roi yn y gacen. Wedyn, dilynon ni'r cerrig gwyn i gwrdd â gwraig y dyn. Roedd llawer o gerrig a bwcedi yn y neuadd. Roedd y wraig angen tywod, cerrig arbennig a dŵr i wneud y gacen.
Cawson ni llawer o hwyl ac rydym yn ddiolchgar iawn i Ffion, Carwyn, Jeremy a Matt. Diolch yn fawr iawn.
Gan Llŷr, Morgan a Levi (Blwyddyn2).



Tîm pêl droed 5 bob ochor.



Perfformiad Arad Goch - O Gam i Gam



Ymweliad Lucia a Dosbarth 2

ELIN JONES
Aelod Cynulliad
Plaid Cymru — Ceredigion



*Mae Elin Jones yn cynnal cymorthfeydd rheolaidd ar draws Ceredigion.*

*I wneud apwyntiad, cysylltwch â swyddfa'r etholaeth yn Aberystwyth:*

Elin Jones AC
01970 624 516
elin.jones@wales.gov.uk
32 Heol y Wig, Aberystwyth, SY23 2LN

# TASG Y TINCER


Elen Madrun

Mae'n anodd credu ei bod hi bellach yn fis Hydref ac mai rhyw 2 fis sydd yno tan y Nadolig! Cyn hynny, wrth gwrs, mae noson Calan Gaeaf, a noson Guto Ffowc, felly mae 'na ychydig o wythnosau prysur i ddod i chi'r plant! Diolch i bawb fu'n lliwio'r mosg y mis diwethaf, i ddathlu gwyl Ramadan y Mwslemiaid. Dyma pwy fu'n lliwio:
Kayla Allsopp, 31 Ger-y-llan, Penrhyn-coch; Elen Madrun Llewelyn Evans, Llys Berw, Llandre; Ela Glain Ebenezer Thomas a Garan Rhys Ebenezer Thomas, Llandaf, Caerdydd; Morgan Iwan Ebenezer Ellis a Gruffudd Iwan Ebenezer Ellis, Gwaelod-y-garth, Pontypridd; Elin Pierce Williams, Bryncastell, Bow Street; Craig Edwards, 10 Pen-llwyn, Capel Bangor. Roedd yn braf iawn gweld enwau newydd yn cystadlu. Roedd pob llun yn werth ei weld. Daliwch ati!

Ti, Elen o Landre, sy'n ennill y tro hwn. Llongyfarchiadau mawr!

Ydech chi'n mwynhau gwylio golff ar y teledu? Rwy'n siwr bod nifer o blant *Y Tincer* yn chwarae golff yn y Borth, a hynny ym mhob tywydd. Da iawn chi! Ddaru chi ddilyn gemau'r Cwpan Ryder ar ddechrau'r mis? Roedd y bencampwriaeth yn dod o Gymru eleni, wrth gwrs, o'r Celtic Manor ger Casnewydd. Am le smart! Mae'n debyg bod y dilynwyr wedi bwyta 15,000 o fyrgers cig eidion, 20,000 plât o bysgod a sglodion, heb sôn am yfed 132,000 peint o gwrw dros gyfnod y bencampwriaeth hon! Trueni nad oedd y tywydd yn well i'r tîmau ac i'r dilynwyr.

Mae hanes diddorol iawn i'r Cwpan Ryder, rhwng timau'r Unol Daleithiau a Phrydain. Enwyd y bencampwriaeth ar ôl dyn o'r enw Samuel Ryder a anwyd yn 1858 ac a fu farw'n 1936. Roedd yn ddyn busnes cyfoethog. Talodd am greu cystadleuaeth golff newydd a thalodd am gwpan hardd i'r enillydd. Yn 1927 cynhaliwyd y bencampwriaeth Ryder cyntaf.

Wyddoch chi fod dyn arbennig o ardal *Y Tincer* newydd ysgrifennu stori dda am y gêm golff? Holwch yn y llyfrgell, neu mewn siop lyfrau, am gopi o *Breuddwyd Monti* gan Gareth William Jones. Mae'n grêt!

Y mis hwn, beth am liwio llun Tomos Tylluan yn mwynhau gêm golff? Efallai mai ar gwrs golff y Borth mae Tomos, gyda bryniau ardal Aberdyfi y tu ôl iddo! Anfonwch eich gwaith ata'i erbyn Tachwedd 1af i'r cyfeiriad arferol: Tasg y Tincer, 46 Bryncastell, Bow Street, Ceredigion, SY24 5DE


Gareth William Jones yn cyflwyno copi o'r gyfrol i Syr Terry Matthews



Enw

Cyfeiriad

Oed | Rhif ffôn

Llety
Maes-y-môr
Aberystwyth
o £20 y noson
Ystafell yn unig . Teledu . Te a choffi .
Wi Fi am ddim . Parcio. Shed i feics
www.maesymor.co.uk
Ffon: 01970 639 270

inc
Amrywiaeth eang o lyfrau, cardiau,cerddoriaeth ac anrhegion Cymraeg.
Croesawir archebion gan unigolion ac ysgolion
13 Stryd y Bont
Aberystwyth
01970 626200

Gwasanaeth
CYFIEITHU
Linda Griffiths

Maesmeurig
Cwmsymlog
Aberystwyth
Ceredigion SY23 3EZ
01970 828454
linda.griffiths01@btinternet.com

ISSN 0963-925X
9 770963 925009 >
Rhif 332 | HYDREF 2010